



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Goleg Pen-y-bont ar Ogwr
Heol y Bont-faen
Pen-y-bont ar Ogwr
CF31 3DF**

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y darparwr a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad yn unol ag Adran 77 Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.llyw.cymru

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).

© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/06/2016

Cyd-destun

Coleg addysg bellach yw Coleg Pen-y-bont ar Ogwr, ac mae tua 13,000 o fyfyrwyr wedi eu cofrestru yno. Mae ganddo ryw 2,600 o ddysgwyr amser llawn ac mae'n cyflogi tua 600 o staff. O ran niferoedd y dysgwyr amser llawn, mae hyn yn golygu mai dyma un o'r colegau addysg bellach lleiaf (nawfed o ddeuddeg) yng Nghymru.

Mae'r coleg yn gweithredu ar draws pum campws ym Mhen-y-bont ar Ogwr, Pen-coed, Maesteg a Chaerdydd. Mae gan y coleg is-gwmni hyfforddiant y sector preifat y mae'n berchen arno yn gyfan gwbl, sef The People Business Wales, a changen hyfforddiant masnachol, sef Engage Business Wales. Mae hefyd yn gweithredu cyfleuster preswyl ar gyfer dysgwyr ag anabledau ac anawsterau dysgu difrifol, sef Tŷ Weston, sydd wedi'i leoli ar dir ei gampws ym Mhen-y-bont Ogwr.

Daw tua hanner dysgwyr y coleg o Fwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, sy'n ymestyn tua 20 cilomedr o'r gorllewin i'r dwyrain, ac yn cynnwys Cwm Llynfi, Cwm Garw a Chwm Ogwr. Amcangyfrifir mai cyfanswm poblogaeth y sir yw tua 134,000 o bobl. Mae'r coleg yr un mor bell oddi wrth canolfannau poblogaeth fawr Abertawe a Chaerdydd. Mae'r coleg hefyd yn denu dysgwyr o ar hyd coridor yr M4 a De Cymru.

Mae'r coleg yn gwasanaethu rhanbarth sydd ag ardaloedd lle ceir llawer o amddifadedd cymdeithasol. Mae un ar ddeg o'r 85 ardal ym Mhen-y-bont ar Ogwr yn y 10% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, tra bod 13% o boblogaeth y sir sydd dros 16 oed wedi dweud bod ganddynt salwch meddwl, ffigur sydd ddau bwynt canran yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae cyfraddau anweithgarwch economaidd yn uchel ac yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae'r coleg yn cynnig cwricwlwm o'r cyfnod cyn mynediad hyd lefel gradd. Nid yw'n cynnig darpariaeth Safon Uwch amser llawn. Y coleg sydd â'r ddarpariaeth addysg uwch freiniol fwyaf mewn addysg bellach yng Nghymru gyda thua 1,000 o ddysgwyr addysg uwch.

Crynodeb

Perfformiad presennol y darparwr	Rhagorol
Rhagolygon gwella'r darparwr	Rhagorol

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y coleg yn rhagorol oherwydd:

- Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da iawn o fannau cychwyn isel ac yn cyflawni safonau da
- Mae ymddygiad a phresenoldeb dysgwyr yn y coleg yn eithriadol o dda, ac mae eu hagweddau cadarnhaol yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wnânt
- Mae'r cwricwlwm yn hynod ymatebol i anghenion dysgwyr yn y gymuned, yn enwedig dysgwyr sy'n agored i niwed
- Mae'r coleg wedi sefydlu ethos a diwylliant eithriadol o dda, sy'n hynod gynhwysol i bob un o'r dysgwyr, yn enwedig y rheiny ag anabledau ac anghenion dysgu ychwanegol
- Mae cymorth hynod unigoleddig a chynlluniedig ar gyfer dysgu ar gael i'r holl ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny sydd ag ystod amrywiol o anghenion, i elwa ar y cwricwlwm yn effeithiol

Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r coleg yn rhagorol oherwydd:

- Mae arweinyddiaeth ysbrydoledig gan y pennaeth wedi cael effaith gadarnhaol iawn ar draws holl feysydd y coleg
- Mae rheolwyr ar draws y coleg yn rhannu lefel uchel o ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae'r coleg yn ei ddisgwyl ohonynt a'r modd y maent yn cyfrannu at waith a llwyddiant y coleg yn y dyfodol
- Mae diwylliant y coleg yn cynorthwyo staff i arloesi a mentro yn ogystal â chyfrannu'n arbennig o dda at yr hyder ymhlith staff yn eu gallu i gyflawni heriau yn y dyfodol
- Mae gan y coleg bartneriaethau cryf ac effeithiol, sy'n cynnig manteision gweladwy ac uniongyrchol i ddysgwyr, fel cysylltiadau helaeth â phrifysgolion, gan alluogi i ddysgwyr ddilyn llwybrau i addysg uwch
- Mae gan y coleg gyfraddau llwyddo gwell ar gyfer dysgwyr mewn cyfnod o bwysau ariannol, ac mae wedi adfer i sicrhau sefyllfa ariannol gadarn yn dilyn diffyg ariannol

Argymhellion

- A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau arnynt yn llwyddiannus
- A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu
- A3 Datblygu systemau ansawdd i sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar wella addysgu a dysgu

Beth sy'n digwydd nesaf?

Astudiaeth achos arfer ragorol

Bydd y coleg yn ymgorffori camau gweithredu yn ei gynllun datblygu ansawdd, sy'n dangos yn glir sut bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion a wnaed yn yr adroddiad hwn. Bydd cynnydd yn erbyn yr argymhellion hyn yn cael ei fonitro'n gyfnodol gan arolygydd cyswllt Estyn y coleg. Bydd Estyn yn gwahodd y coleg i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Yn 2013-2014, cwblhaodd dysgwyr yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr eu cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfraddau yn debyg i, neu ychydig yn uwch, na'r cymharydd cenedlaethol. Ar gyfer cymwysterau sylweddol (y rheiny sydd gyfwerth â, neu'n fwy na, 150 o oriau dysgu dan arweiniad), mae'r coleg wedi cael ei raddio yn y chwarter uchaf o gymharu â cholegau eraill yng Nghymru. Ar gyfer cymwysterau sylweddol, mae tua hanner ei feysydd dysgu wedi cael eu graddio yn y chwarteri uchaf ac uwch, ac ychydig iawn ohonynt sydd yn y chwarter isaf. Ar gyfer pob cwrs, mae'r coleg wedi ei raddio yn y chwarter uwch hefyd, ac mae mwyafrif o'i feysydd dysgu yn y chwarteri uchaf ac uwch.

Mae cyfraddau llwyddo yn dangos tuedd gynyddol ar i fyny dros y cyfnod o dair blynedd o 2011-2012 i 2013-2014. Dros y cyfnod hwn, mae'r gyfradd gyffredinol y mae dysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau'n llwyddiannus arni wedi codi o 77% i 85%. Mae'r duedd ar i fyny yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae data anghyhoeddedig y coleg ei hun ar gyfer 2014-2015 yn gadarn ac yn dangos cynnydd parhaus yn y gyfradd llwyddo gyffredinol, er nad yw'r duedd ar i fyny yn gyson ar draws yr holl feysydd dysgu.

Mae'r coleg yn cofnodi graddau TGAU dysgwyr pan fyddant yn dechrau eu cyrsiau. O gymharu â'r manau cychwyn hyn, mae dadansoddiad gwerth ychwanegol y coleg ei hun yn dangos bod dysgwyr ym mwyafrif y meysydd dysgu yn cyflawni graddau da neu raddau ychydig yn well na'r disgwyl o leiaf yn eu prif gymwysterau. Fodd bynnag, ar rai cyrsiau, nid yw dysgwyr yn cyflawni'r graddau disgwylidig.

Mae dysgwyr o wahanol grwpiau ethnig, dysgwyr sy'n wrywod ac yn fenywod, dysgwyr ag anabledau a dysgwyr o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn ennill eu cymwysterau'n llwyddiannus, yn unol â'u cymaryddion cenedlaethol. Mae'r cyfraddau llwyddo ar gyfer y dysgwyr hyn yn dangos tuedd ar i fyny yn unol â'r cynnydd cyffredinol yn y cyfraddau llwyddo ar draws y coleg.

Mae dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol, gan gynnwys y rheiny sy'n byw yn Nhŷ Weston, yn gwneud yn dda ac yn gwneud cynnydd da i ddilyn lefelau cymharol uwch o gyrsiau yn y coleg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau ac yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn dda. Maent yn sylwgar yn y dosbarth ac mae ganddynt berthnasoedd parchus â staff. Maent yn gweithio'n dda yn unigol ac mewn grwpiau. Maent yn rhyngweithio'n dda â'u cyfoedion, ac mewn lleoliadau galwedigaethol gyda chleientiaid a chwsmeriaid. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr ar rai cyrsiau yn datblygu eu medrau a'u gwybodaeth yn ddigon cyflym ac nid yw rhai dysgwyr mwy abl yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud defnydd da o gyfleoedd i ymarfer eu gwybodaeth a'u medrau mewn cyd-destunau realistig. Er enghraifft, mae dysgwyr TGCh yn cynnal gweithdy technegol llwyddiannus, yn ymgymryd â thasgau cynnal cyfrifiaduron ar gyfer dysgwyr, staff a'r cyhoedd. Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn dangos gallu cryf o ran dawn a thechneg, gan gynnwys y gallu i berfformio coreograffi cymhleth gyda chywirdeb ac ymroddiad.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon i nodi eu cryfderau a'u gwendidau cyffredinol mewn llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, lleiafrif o ddysgwyr yn unig sy'n gwbl ymwybodol o'r targedau tymor byr y mae angen iddynt eu cyrraedd i fynd i'r afael â'r gwendidau hyn a gwella eu medrau presennol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau llythrennedd a rhifedd, yn aml o fannau cychwyn isel.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n astud a gyda diddordeb ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Yn eu dosbarthiadau galwedigaethol, mae dysgwyr yn cyfathrebu'n dda. Mewn dosbarthiadau sy'n canolbwyntio ar wasanaeth cwsmeriaid, fel therapi harddwch neu arlwy, mae dysgwyr yn siarad yn hyderus gyda chwsmeriaid ac yn esbonio termau technegol yn dda. Ar y cyfan, mae sillafu, atalnodi a gramadeg dysgwyr yn gyffredinol gywir, yn unol â gallu. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol mewn gwaith ysgrifenedig.

Mae llawer o ddysgwyr yn ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd yn dda trwy eu cyrsiau galwedigaethol. Er enghraifft, mae dysgwyr mewn peirianneg yn defnyddio medrau newydd i gyfrifo sut i gynhyrchu eitemau yn ôl goddefgarwch wrth ddefnyddio peiriannau melino. Mae dysgwyr â mannau cychwyn is yn gwella eu medrau rhifedd bob dydd fel cyfrifo newid a deall a chyfrifo amser gan ddefnyddio clociau 12 awr a 24 awr. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr mewn rhai meysydd dysgu yn datblygu eu medrau rhifedd trwy eu dosbarthiadau galwedigaethol yn ddigon da.

Ar y cyfan, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd boddhaol wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae tua chwarter y dysgwyr amser llawn yn ymarfer eu medrau Cymraeg yn effeithiol trwy raglenni iaith ar Waith, sy'n datblygu eu medrau iaith ar gyfer eu llwybrau galwedigaethol. Mewn rhai meysydd, fel gofal plant, mae dysgwyr yn elwa ar gyrsiau Cymraeg sy'n fuddiol o ran gwella eu cyflogadwyedd. Mae ychydig iawn o ddysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn dewis cael eu hasesu neu sefyll arholiadau, fel mathemateg TGAU, trwy gyfrwng y Gymraeg.

Lles: Rhagorol

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwerthfawrogi eu coleg yn fawr. Maent yn mynegi lefelau uchel iawn o foddhad â bron pob agwedd ar fywyd y coleg. Mae agweddau cadarnhaol dysgwyr yn cyfrannu'n sylweddol at y cynnydd a wnânt yn ystod eu cyfnod yn y coleg.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da iawn yn y coleg. Mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o faterion iechyd a diogelwch yn eu gwaith a'u meysydd dysgu. Mae gan fwyafrif y dysgwyr ddealltwriaeth fuddiol o sut i gynnwyl ffordd iach o fyw.

Mae ymddygiad dysgwyr mewn gwersi ac o gwmpas y coleg yn dda iawn. Mae cod dinasyddiaeth y coleg yn annog dysgwyr yn llwyddiannus i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd a'u dysgu eu hunain. Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol gyda'u hathrawon, ac maent yn ystyriol ac yn barchus o'u cyfoedion. Maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi, yn gweithio'n dda â'i gilydd, ac yn dangos agweddau symbylol at eu gwaith.

Mae cyfraddau presenoldeb yn y coleg yn uchel iawn. Y gyfradd presenoldeb gyfredol eleni yw oddeutu 94%. Caiff hyn effaith gadarnhaol sylweddol ar gynnydd a chyflawniad dysgwyr.

Mae dysgwyr yn cyfrannu'n effeithiol at wneud penderfyniadau yn y coleg. Mae cynrychiolwyr academiaidd dysgwyr yn cyfarfod yn rheolaidd ag uwch arweinwyr. Maent yn trafod materion sy'n peri pryder i'r dysgwyr ac yn gwneud gwelliannau gwerthfawr i amgylchedd y coleg a'r cymorth i ddysgwyr. Maent yn rhoi adborth gwybodus i'w hathrawon ac yn cyfrannu mewn modd adeiladol at arfarnu'r addysgu a'r dysgu.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yn frwdfrydig mewn ystod eang o weithgareddau cyfoethogi perthnasol i ddatblygu eu medrau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaidd. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at y gymuned trwy weithgareddau gwirfoddol a chodi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol. Mewn llawer o achosion mae eu syniadau dychmygus yn adlewyrchu'n gynhyrchiol eu gwybodaeth eu hunain a'u profiad o amddifadedd. Er enghraifft, mae grŵp o ddysgwyr y cyfryngau rhyngweithiol yn gweithio'n llwyddiannus gyda siop elusennol leol i sefydlu banc dillad sydd wedi ei anelu at bobl ifanc yn eu harddegau sydd dan anfantais. Mae rhai dysgwyr yn cynrychioli eu coleg ar lefel uchel mewn amrywiaeth o gystadlaethau lleol a chenedlaethol sy'n datblygu eu medrau personol a galwedigaethol yn effeithiol iawn.

At ei gilydd, mae'r cynnydd rhagorol a wna llawer o ddysgwyr wrth ddatblygu eu medrau cymdeithasol a'u hyder yn ystod eu cyfnod yn y coleg yn gryfder sylweddol yn y coleg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Profiadau dysgu: Rhagorol

Mae'r coleg yn cynllunio'r cwricwlwm yn effeithiol iawn ac mae'n cynnig ystod o gyrsiau ar draws yr holl feysydd dysgu, sy'n galluogi dysgwyr i weddu eu dewisiadau gyrfa i'w hanghenion pwnc arbenigol. Caiff dysgwyr gyfleoedd buddiol i gymryd rhan mewn dysgu o lefel mynediad i lefel 6. Mae'r coleg wedi gweithio'n dda gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd i sicrhau bod llwybrau cynhwysfawr i symud ymlaen i addysg uwch ar gael ym mhob maes dysgu, a chreu llwybrau newydd ar gyfer dysgwyr nad oeddent yn cael cyfleoedd dilyniant yn draddodiadol. O ganlyniad, aiff cyfran uchel o ddysgwyr ymlaen i astudio ar lefelau uwch. Mae llwybrau dilyniant clir ar draws pob llwybr ac mae'r cyfraddau y mae dysgwyr yn symud ymlaen i addysg uwch arnynt yn nodwedd gref iawn o ddarpariaeth y coleg.

Mae'r cynllunio yn rhoi ystyriaeth dda iawn i wybodaeth y farchnad lafur leol, anghenion cyflogwyr a thueddiadau mewn perfformiad i lywio newid neu ddatblygiadau yn y cwricwlwm. Mae'r coleg yn hynod ymatebol i'w gymuned ac mae wedi addasu'r cwricwlwm i fodloni ei anghenion, yn enwedig anghenion dysgwyr sy'n agored i niwed. Nodwedd ragorol yw cyfleuster celf Studio 34 ym Maesteg sy'n cynnig cyfleoedd ysbrydoledig i ddatblygu ystod o fedrau ac aros mewn addysg a hyfforddiant.

Mae'r coleg wedi lleihau nifer y cyrsiau rhan-amser a gynigir o ganlyniad i'r gostyngiad yn y cyllid a ddyrannwyd yn ystod 2014-2015, a sefydlodd is-gwmni i ddatblygu a chyflwyno cyrsiau i fusnesau. Mae hyn wedi galluogi dysgwyr a oedd yn astudio'n rhan-amser yn y gorffennol i fanteisio ar ddarpariaeth.

Mae'r coleg yn cynnig ystod eang o ddarpariaeth i gefnogi datblygiad llythrennedd a rhifedd dysgwyr, gan gynnwys cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru, TGAU ac unedau credyd o lefel mynediad i lefel 3. Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth glir i fynd i'r afael â bylchau ym medrau dysgwyr. Mae'r coleg yn cynnal paneli cymorth cyfadran defnyddiol bob tymor i drafod canlyniadau asesu cychwynnol pob dysgwr, eu cyflawniadau blaenorol o ran medrau, eu hanghenion cymorth, a'u cynnydd trwy gydol y flwyddyn. Darparwyd cyrsiau TGAU ychwanegol i gyflawni blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

Mae dysgwyr yn manteisio ar ystod eang o weithgareddau cyfoethogi, sy'n ychwanegu gwerth at eu profiad trwy eu prif raglenni, eu sesiynau tiwtorial, a gweithgareddau ar draws y coleg, er enghraifft trwy gymryd rhan mewn heriau entrepreneuriaeth.

Caiff mwyafrif y dysgwyr gyfleoedd gwerth chweil i ddatblygu gwybodaeth a gwerthoedd yn gysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Mae'r coleg wedi datblygu ystod werthfawr o weithgareddau i wella medrau iaith dysgwyr a'u dealltwriaeth o'r dimensiwn Cymreig. Mae chwarter y dysgwyr amser llawn yn dilyn y cymhwyster 'Iaith ar Waith'. Mae'r coleg wedi gweithio'n dda â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarparu modiwlau lefel 4 cyfrwng Cymraeg 'Paratoi ar gyfer addysg uwch' sydd wedi eu cynllunio'n benodol ar gyfer dysgwyr lefel 3 sy'n dymuno symud ymlaen i addysg uwch.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn dangos gwybodaeth bynciol gref a, lle bo'n berthnasol, defnyddiant eu profiad yn dda i gynorthwyo dysgwyr. Mae llawer o athrawon yn cynllunio gwersi'n dda, ac o ganlyniad, mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da. Mewn gwersi theori a gwersi ymarferol fel ei gilydd, defnyddia athrawon ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu priodol ac adnoddau o ansawdd uchel sy'n ennyn diddordeb dysgwyr ac yn eu herio'n dda.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn herio dysgwyr yn dda i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u cymhwysedd ymarferol i'w paratoi'n dda ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, mae rhediad y dysgu'n rhy araf ac nid yw disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel. O ganlyniad, nid yw rhai dysgwyr o bob gallu yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud.

Mae mwyafrif o athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig dysgwyr yn rheolaidd ac yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol iddynt. Fodd bynnag, ar draws y coleg, mae adborth ysgrifenedig yn rhy amrywiol ac nid yw lleiafrif o athrawon yn rhoi sylwadau digon manwl i ddysgwyr ynglŷn â sut y gallant wella'u gwaith.

Mewn dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol, mae athrawon yn cynorthwyo dysgwyr yn dda i wella eu llythrennedd a'u rhifedd. Mae mwyafrif y medrau hyn yn gosod a monitro targedau priodol ar gyfer dysgwyr ar sail eu hasesiad cychwynnol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o achosion, nid yw targedau'n ddigon manwl i alluogi dysgwyr i olrhain a monitro eu cynnydd eu hunain, ac nid ydynt yn berthnasol i brif gyrsiau a chymwysterau dysgwyr yn gyson.

Defnyddia athrawon ystod o systemau manwl sy'n olrhain cynnydd dysgwyr yn briodol. Defnyddia mwyafrif yr athrawon ystod addas o dechnegau holi i brofi dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn defnyddio cwestiynau'n ddigon effeithiol i brofi dealltwriaeth dysgwyr neu ddatblygu eu gwybodaeth.

Mae bron pob un o'r athrawon yn datblygu perthnasoedd gweithio effeithiol gyda'u dysgwyr. Mae staff cymorth dysgu'n rhoi cymorth personol gwerthfawr i ddysgwyr.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae gan y coleg ddisgwyliadau clir iawn o bresenoldeb ac ymddygiad dysgwyr. Mae ystod briodol o bolisiau a gweithdrefnau cynhwysfawr i reoli'r disgwyliadau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at lefelau uchel lles y dysgwyr a chyrhaeddiad gwell.

Mae'r coleg wedi dechrau gweithio gyda'r awdurdod lleol yn ddiweddar i rannu gwybodaeth am grwpiau o ddysgwyr sy'n agored i niwed, gan gynnwys y rheiny y nodwyd eu bod mewn perygl o beidio ag ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant. O ganlyniad, mae'r coleg wedi ei baratoi'n dda i fodloni anghenion y dysgwyr hyn.

Mae'r coleg yn trefnu darpariaeth ragorol ar gyfer pob un o'r dysgwyr y mae angen cymorth arnynt, yn enwedig y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. O ganlyniad i ddeilliannau asesiadau arbenigol cynhwysfawr, caiff dysgwyr adnoddau a chymorth sydd wedi'u teilwra yn unol â'u hangen penodol. Mae gweithwyr cymorth a staff gwasanaethau dysgu cymwys a phrofiadol iawn yn cysylltu'n effeithiol â thiworiaid personol i nodi materion a allai fod yn effeithio ar ddysgwyr ac maent yn rhoi cynlluniau cymorth priodol ar waith. Maent yn sicrhau bod dysgwyr yn gwneud cynnydd da a'u bod yn cael eu cynnwys yn llawn ym mywyd y coleg. Mae dysgwyr heb anghenion dysgu ychwanegol yn datblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o anghenion pobl eraill; maent yn derbyn ei gilydd heb ragfarn. Mae hyn yn gryfder arbennig yn y coleg.

Mae'r coleg yn adnabod ei ddysgwyr yn eithriadol o dda. Mae swyddogion lles yn effeithiol iawn wrth roi cyngor ac arweiniad gwerthfawr i ddysgwyr a staff fel ei gilydd. Mae systemau olrhain yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio'n dda iawn ar fesur effaith ymyriadau ar ymgysylltiad, dilyniant a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae staff yn gweithio'n dda ac yn cyfathrebu'n effeithiol â'i gilydd.

Mae'r coleg wedi datblygu system diwtorial e-ddysgu yn ddiweddar, sydd ar gael i bron pob un o'r dysgwyr amser llawn elwa arni. Mae'r system hon yn darparu ystod o wybodaeth ddefnyddiol iawn am fedrau astudio personol a gwybodaeth am faterion yn gysylltiedig ag iechyd. Mae athrawon personol yn goruchwyllo'r cynnydd a wna dysgwyr wrth gwblhau'r sesiynau tiwtorial. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith hyn.

I ymateb i ofynion Deddf Diogeled a Gwrthderfysgaeth 2015, mae'r coleg wedi sicrhau bod pob un o'r staff wedi cael hyfforddiant priodol. Mae ei gynllun gweithredu yn drylwyr a chynhwysfawr. Mae trefniadau'r coleg ar gyfer diogelu yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r pennaeth, gyda chymorth gan yr uwch dîm rheoli, wedi sefydlu ethos a diwylliant cadarnhaol iawn ar draws y coleg sy'n meithrin ac yn cefnogi dysgu yn effeithiol. Mae'r coleg yn darparu amgylchedd croesawgar iawn a hynod gynhwysol lle mae dysgwyr o bob cefndir yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da. Mae'r coleg yn hynod lwyddiannus o ran nodi meysydd i'w gwella ymhellach o ran ymddygiadau dysgwyr. Er enghraifft, mae'r strategaeth 'adduned' yn cynnwys yr holl staff yn cynorthwyo dysgwyr trwy ystod o weithgareddau targedig. Mae'r gweithgareddau hyn yn blaenoriaethu gwella agweddau allweddol fel presenoldeb, prydoldeb ac ymddygiad.

Mae'r coleg yn hynod effeithiol o ran herio gwahaniaethu ac anghydraddoldeb trwy ei ffocws cryf iawn ar barchu amrywiaeth. Mae'r coleg wedi datblygu strategaeth gynhwysfawr i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynwysoldeb sy'n cysylltu'n dda ag ystod eang o bolisïau a gweithgareddau eraill. Mae'r coleg wedi nodi saith maes allweddol gyda 'hyrwyddwr cydraddoldeb' cysylltiedig sy'n gyfrifol am godi ymwybyddiaeth a datblygiad ar draws y coleg. Mae'r rhain yn cynnwys ethnigrwydd, stereoteipio rhywedd a chrefydd a chred. Enghraifft nodedig o hyn yw lefelau uchel y cymorth a roddir i ddysgwyr lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol.

Mae'r coleg yn ddychmygus yn y ffordd y mae'n defnyddio ei ystâd i sicrhau'r budd gorau posibl i ddysgwyr. Mae wedi canolbwyntio'n dda ar ddiweddarau a gwella ystafelloedd dosbarth a gweithdai y tu mewn i'w adeiladau presennol. O ganlyniad, mae adeiladau ar draws safleoedd y coleg yn darparu ystafelloedd dosbarth ag offer da a meysydd gwaith ymarferol ar gyfer dysgwyr sy'n ysgogi dysgu. Caiff celf wal ansawdd uchel y dysgwyr ei arddangos yn effeithiol i ddathlu llwyddiant a chreu ethos cadarnhaol.

Mae'r rhan fwyaf o weithdai ymarferol yn cynnwys ystod gynhwysfawr o adnoddau addysgu a dysgu. Mae gan y coleg sawl cyfleuster o ansawdd uchel. Mae'r rhain yn cynnwys theatr y celfyddydau perfformiadol, academi chwaraeon a'r cyfleuster gwallt a harddwch. Yn y meysydd hyn, gall dysgwyr fanteisio ar offer cyfoes a gweithio mewn amgylchedd gwaith realistig sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Rhagorol
--	-----------------

Arweinyddiaeth: Rhagorol

Mae'r uwch dîm arweinyddiaeth wedi ymateb yn hynod effeithiol i'r heriau a ddaw yn sgil gostyngiad mewn cyllid a'r angen i wella safon yr addysg a'r hyfforddiant gyda chreadigrwydd a thrylwyrdd systematig. Mae eu penderfyniad i gyflawni'r heriau hyn wedi arwain at sefyllfa ariannol well o lawer i'r coleg a deilliannau gwell i ddysgwyr.

Mae'r pennaeth ac uwch arweinwyr wedi canolbwyntio o'r newydd ar weledigaeth a chenhadaeth y coleg yn ddychmygus ac wedi symbylu staff yn arbennig o dda trwy'r broses hon. Mae'r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth ysbrydoledig sydd wedi cael effaith sylweddol ar drawsnewid y coleg. Mae uwch arweinwyr yn dangos gwydnwch a dyfalbarhad wrth geisio sicrhau gwelliant yn ansawdd y ddarpariaeth a'r deilliannau ar gyfer dysgwyr.

Mae staff bron ym mhob maes yn hynod gefnogol i'r coleg ac wedi ymrwymo i'w gynllun strategol ar gyfer gwella. Maent yn dangos ymrwymiad cryf i genhadaeth y coleg, sef 'byddwch yn bopeth y gallwch' wrth ymgymryd â'u gwaith. Mae morâl staff yn uchel ar y cyfan, ac mae wedi gwella trwy gydol cyfnod o newid sylweddol.

Mae cyfathrebu mewnol yn hynod effeithiol a gwneir defnydd helaeth o friffiadau'r pennaeth, cyfarfodydd a chyfryngau cymdeithasol i sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn deall pam mae uwch arweinwyr yn cynnig newidiadau sylweddol. Mae'r prosesau hyn wedi cael eu cynorthwyo trwy wella medrau rheolwyr trwy ddefnyddio rhaglen drylwyr i hyfforddi rheolwyr, sydd wedi'i theilwra'n agos ag anghenion y coleg yn ystod cyfnod o her sylweddol. O ganlyniad, mae rheolwyr ar draws y coleg yn rhannu lefel uchel o ddealltwriaeth ar y cyd o'r hyn y mae'r coleg yn ei ddisgwyl ohonynt a sut maent yn cyfrannu at waith a llwyddiant y coleg yn y dyfodol. Mae'r newid yn niwylliant y coleg yn cynorthwyo staff i arloesi a mentro. O ganlyniad, mae staff yn hyderus yn eu gallu i gyflawni heriau yn y dyfodol.

Yn gyffredinol, mae gan y coleg drefniadau priodol ar gyfer rheoli ac adolygu performiad athrawon a staff eraill. Fodd bynnag, mae uwch arweinwyr wedi nodi diffygion yn y trefniadau presennol ac mae ganddynt gynlluniau cadarn ar gyfer gwella.

Mae'r coleg yn hynod ymatebol i anghenion lleol a blaenoriaethau cenedlaethol.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu lefel uchel iawn o her i reolwyr y coleg. Mae llywodraethwyr yn meddu ar ystod eang o fedrau a gwybodaeth gyfredol am addysg a hyfforddiant ôl-16. Defnyddiant y medrau hyn yn arbennig o dda i holi rheolwyr y coleg yn drylwyr am unrhyw newidiadau strategol a gynllunnir ac maent yn aml yn gofyn am ragor o wybodaeth er mwyn bod yn hyderus i gadarnhau cynlluniau arfaethedig. Mae llywodraethwyr yn drylwyr iawn o ran herio pob agwedd ar ansawdd y ddarpariaeth a sefyllfa ariannol y coleg.

Gwella ansawdd: Da

Cynhaliodd y coleg adolygiad trylwyr o'i systemau a gweithdrefnau ansawdd yn dilyn penodi'r pennaeth newydd yn 2013. Mae canfyddiadau'r adolygiad hwn wedi arwain at ffocws ar wella ansawdd, gyda'r pwyslais ar rannu arfer orau, er mwyn ysgogi gwelliant yn neilliannau dysgwyr. Mae'r tîm gwella ansawdd wedi cyflwyno nifer o strategaethau a gweithdrefnau llwyddiannus sy'n cynnwys aelodau o staff yn weithredol ar bob lefel.

Mae rheolwyr meysydd y cwricwlwm yn mynychu cyfarfodydd tymhorol defnyddiol sy'n cael eu cadeirio gan uwch reolwr, lle caiff perfformiad ar yr holl gyrsiau ei drafod yn fanwl. Mae'r cyfarfodydd hyn yn nodi cyrsiau sy'n tanberfformio ac yn arwain at gamau gweithredu effeithiol i gynllunio gwelliannau.

Caiff holl feysydd y coleg eu cynnwys mewn hunanasesu, a chaiff safbwyntiau dysgwyr, cyflogwyr a staff eu casglu a'u defnyddio'n dda yn y broses hon. Mae cynllun strategol a dangosyddion perfformiad allweddol y coleg yn glir, ac mae adroddiadau hunanasesu yn cysylltu'n agos â'r nodau hyn. Gall pob un o'r staff fynd at ddata perfformiad presennol a thair blynedd yn rhwydd gan ddefnyddio gyriant rhwydwaith a rennir y coleg, ac mae llawer o feysydd yn defnyddio'r data hwn yn dda i nodi a herio tanberfformio a rhannu arfer dda.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi defnyddio rheolwyr o golegau eraill i gynorthwyo â dilysu ei adroddiadau hunanasesu ar lefel cyfadran a choleg. Mae hyn wedi helpu i wella natur arfarnol a thrylwyrredd y dogfennau hyn. Ar y cyfan, mae hunanasesiad y coleg yn gywir ac arfarnol ac mae barnau'r coleg ar gyfer llawer o feysydd dysgu'n cyd-fynd â barnau'r tîm arolygu. Fodd bynnag, nid yw adroddiadau hunanasesu rhai meysydd dysgu yn dangos dealltwriaeth ddigon cadarn o gryfderau meysydd a meysydd i'w gwella.

Caiff cylchoedd ansawdd a chylchoedd cynllunio eraill y coleg eu hintegreiddio'n glir. Mae cynlluniau datblygu ansawdd yn ddefnyddiol a realistig ac fe gaiff eu risg ei graddio yn erbyn y nodau strategol. Mae targedau yn y cynlluniau hyn yn benodol, mesuradwy ac amserol ac yn canolbwyntio ar y materion allweddol i'w gwella. Mae grŵp o uwch reolwyr yn monitro cynnydd yn erbyn y cynlluniau hyn yn rheolaidd. Caiff llywodraethwyr ddiweddariadau defnyddiol ar y cynnydd tuag at gwblhau'r camau gweithredu a nodwyd yn adroddiad hunanasesu'r coleg, ac yn ei gynllun gweithredu blynyddol.

Defnyddia'r coleg ystod o strategaethau'n effeithiol i gasglu safbwyntiau dysgwyr, gan gynnwys ei raglen lwyddiannus ar gyfer cynrychiolwyr myfyrwyr, ac fe gaiff dysgwyr adborth prydlon iawn ar eu canmoliaethau a'u pryderon.

Mae system rheoli perfformiad y coleg yn cynnwys proses newydd i arsylwi addysgu. Mae'r broses hon yn barnu addysgu yn erbyn nifer o themâu allweddol, sy'n golygu y gellir nodi meysydd arfer orau a thanberfformio yn hawdd. Mae'r coleg wedi dechrau defnyddio'r broses hon i rannu meysydd arfer orau y mae'n eu nodi ac i dargedu cymorth ar gyfer gwella lle bo angen. Fodd bynnag, mae'n rhy gynnar i farnu effaith y system newydd hon ar wella addysgu.

Gweithio mewn partneriaeth: Rhagorol

Mae gan y coleg bartneriaethau cryf a buddiol ag ystod werthfawr o fusnesau, asiantaethau a phrifysgolion lleol a rhanbarthol. Mae'r coleg yn elwa ar y partneriaethau hyn yn eithriadol o dda i ddarparu cyfleoedd gwych ar gyfer ei ddysgwyr, er enghraifft, trwy nawdd i adnewyddu'r theatr, neu i sefydlu cyfleuster o'r radd flaenaf i ddadansoddi perfformiad mewn chwaraeon.

Mae'r coleg wedi datblygu cwricwlwm addysg uwch cynhwysfawr sydd wedi galluogi mwyafrif dysgwyr galwedigaethol lefel 3 i fynd ymlaen i addysg uwch trwy bartneriaethau hynod effeithiol gyda phrifysgolion rhanbarthol. Er enghraifft, mae'r coleg wedi datblygu gradd sylfaen arloesol mewn rheoli yn y sector gwasanaethau gydag un o'i bartneriaid prifysgol yn ddiweddar. Mae hyn wedi sicrhau bod dysgwyr na fyddent fel arfer yn manteisio ar addysg uwch yn gallu dilyn rhaglen ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Mae datblygiad strategol ei bartneriaethau addysg uwch wedi galluogi'r coleg i fod yn un o'r darparwyr mwyaf o addysg uwch mewn addysg bellach yng Nghymru.

Mae'r pennaeth wedi nodi pwysigrwydd sefydlu partneriaethau mewn addysg ôl-16 ag ysgolion ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Yn benodol, mae'r coleg yn cydweithio ag un ysgol leol i ddatblygu cwricwlwm ar y cyd a darparu cyfleoedd a rennir ar gyfer dysgwyr. Er ei bod yn rhy gynnar i farnu effaith lawn y datblygiad hwn, mae rhai manteision i ddysgwyr eisoes, fel y 'rhaglen anelu'n uchel' ('aspire programme'), lle mae disgyblion sy'n fenywod yn mynd i'r coleg i wella'u hyder a gwella'u dyheadau.

Mae'r pennaeth yn cymryd rôl weithredol yng ngrŵp llywio'r bwrdd gwasanaethau lleol, sy'n cyfarwyddo gwaith ystod o is-grwpiau perthnasol. Mae hyn yn galluogi'r coleg i ymateb yn gyflym i anghenion a blaenoriaethau lleol ac yn darparu cyfleoedd ychwanegol i ddysgwyr, er enghraifft trwy sefydlu rhaglen datblygu arweinyddiaeth ar gyfer pobl ifanc ym Mhen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r coleg yn rhannu gwybodaeth yn dda â'r awdurdod lleol ac asiantaethau eraill, trwy brotocol rhannu gwybodaeth. Mae hyn yn galluogi'r coleg a'r awdurdod i olrhain cyrchfan y dysgwyr sy'n wynebu risg uchel o beidio â bod mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant ar ôl gadael yr ysgol. Gwna'r coleg ddefnydd effeithiol o'r wybodaeth hon i ddatblygu cynlluniau cwricwlwm a chymorth priodol i ddarparu ar gyfer anghenion y grŵp hwn o ddysgwyr. Mae'r trefniant arloesol hwn wedi cyfrannu at ostyngiad yn nifer y grŵp hwn o ddysgwyr ym Mhen-y-bont ar Ogwr ac mae eu cyfraddau cyfranogiad yn y coleg yn uchel.

Yn ddiweddar, mae'r coleg wedi sefydlu is-gwmni y mae'n berchen arno'n gyfan gwbl i ddatblygu a chyflwyno cyrsiau i fusnesau, ac i ddatblygu ei incwm masnachol adfer cost lawn. Mae hyn wedi arwain at gynnydd yn ystod yr hyfforddiant a ddarperir gan y coleg, yn enwedig i fentrau bach a chanolig ac i bum cwmni mawr ym Mhen-y-bont ar Ogwr sy'n rhai o bartneriaid allweddol y coleg. Mae enghreifftiau o'r gweithgarwch hwn yn cynnwys datblygu rhaglen bwrpasol ar gyfer hyfforddiant proffesiynol mewn peirianeg drydanol, yr oedd angen buddsoddi'n sylweddol mewn offer arbenigol ar ei chyfer.

Rheoli adnoddau: Rhagorol

Mae'r coleg yn rheoli adnoddau'n dda, gan roi sylw manwl iawn i gynllunio ariannol. Caiff perfformiad ariannol ei adolygu bedair gwaith y flwyddyn gan fwrdd o lywodraethwyr sy'n cynnwys arbenigedd ariannol cadarn.

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r coleg wedi symud o fod â diffyg ariannol sylweddol i fod ag arian gweithredol dros ben yn ystod cyfnod lle bu gostyngiad mewn cyllid craidd. I gyflawni'r gwelliant hwn, mae'r coleg wedi cynnal adolygiadau rheolaidd o strwythurau rheoli, lefelau staff cymorth a staff addysgu. Mae wedi gwella effeithlonrwydd trwy leihau costau, heb ddiswyddiadau gorfodol. Dros y cyfnod hwn, mae'r coleg wedi llwyddo i wella deilliannau dysgwyr a morâl staff.

Mae'r coleg wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd gofalus yn ei gostau cynnal hefyd. Er enghraifft, mae wedi lleihau dwy ran o dair o'i gyllideb farchnata ac wedi symud at ddefnyddio dull yn seiliedig ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn wedi gwella recriwtio dysgwyr.

Mae gan y coleg gynllun ystadau uchelgeisiol, y mae'n ei adolygu ddwywaith y flwyddyn. Mae'r cynllun yn rhoi ystyriaeth dda i gynllunio strategol y coleg a chynlluniau partneriaid allweddol fel yr awdurdod lleol. Gwna'r coleg ddefnydd hynod effeithiol o'i adeiladau a'i adnoddau, y mae'n eu marchnata ymhlith y gymuned a chyflogwyr, gan gynhyrchu rhagor o incwm. Mae wedi trawsnewid rhywfaint o'i adeiladau hyn i fod yn amgylcheddau addysg ysbrydoledig, fel theatr.

Dibyniaeth y coleg ar gyllid Llywodraeth Cymru yw'r isaf ond un ymhlith colegau yng Nghymru, a 65% o gyllid yn unig sy'n dod o'r ffynhonnell hon. Mae'r coleg wedi rhannu ei fodel menter â cholegau eraill yng Nghymru.

Mae'r coleg yn ymrwmo lefel sylweddol o fuddsoddiad mewn hyfforddi staff ac mae wedi canolbwyntio ar feysydd perthnasol i'w gwella wrth hyfforddi ei staff, er enghraifft hyfforddi staff i wella'r ffordd y maent yn addysgu medrau llythrennedd a rhifedd. Mae'r gyllideb ar gyfer hyfforddi staff wedi cynyddu dros y pedair blynedd ddiwethaf, er gwaethaf y toriadau fu'n wynebu'r coleg. Mae'r coleg wedi buddsoddi'n dda mewn hyfforddi arweinwyr a rheolwyr, sydd wedi helpu i ddod â phobl ynghyd i ymrwmo ar y cyd i nodau strategol y coleg.

At ei gilydd, mae deilliannau ar gyfer dysgwyr yn dda ac mae'r coleg yn cynnig gwerth da am arian trwy ei reolaeth graff ar gyllid ac adnoddau.

Adroddiadau Meysydd Dysgu

Llythrennedd

Cyd-destun y maes dysgu

Caiff llythrennedd yn y coleg ei addysgu trwy gymorth i ddysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU ac Addysg Sylfaenol i Oedolion (ASO). Yn ystod y cyfnod hwn, ni wnaethom arolygu ASO fel rhan o'r maes dysgu hwn. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd trwy eu rhaglenni astudio galwedigaethol hefyd.

Defnyddia'r coleg offeryn asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Dengys deilliannau asesiad cychwynnol ar gyfer 2015-2016 fod 71% o ddysgwyr ar lefel 1 neu'n is pan fyddant yn dechrau yn y coleg.

Argymhellion y maes dysgu

- A1 Sicrhau bod dysgwyr yn cael arweiniad addas i flaenoriaethu a gosod targedau llythrennedd ystyrlon, a gwella'r cysondeb rhwng targedau sy'n cael eu dewis gan y dysgwyr eu hunain a'r targedau o asesiadau diagnostig
- A2 Cynyddu lefel yr her ar gyfer dysgwyr mwy abl fel eu bod yn cyflawni eu llawn botensial
- A3 Gwella trylwyredd sicrhau ansawdd wrth olrhain a monitro targedau llythrennedd

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Mae cyfradd llwyddo y coleg mewn cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru (ESW) yn dangos tuedd o gynnydd dros y tair blynedd ddiwethaf. Yn 2012-2013, roedd deilliannau'n gosod perfformiad yn y chwarter isaf ac ymhell islaw'r cymharydd cenedlaethol, gan wella i symud i'r chwarter is yn 2013-2014 o gymharu â lefelau mewn colegau eraill yng Nghymru. Mae data anghyhoeddiedig ar gyfer 2014-2015 yn dangos gwelliant sylweddol o naw pwynt canran ar gyfer cyfraddau llwyddo mewn cyfathrebu o'r flwyddyn flaenorol.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiadau cychwynnol a diagnostig priodol ar ddechrau eu cwrs ac yn defnyddio'r wybodaeth hon yn addas i nodi targedau llythrennedd i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn gwbl ymwybodol o'u targedau llythrennedd penodol na'r cynnydd a wnânt tuag at eu cyflawni.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cadarn o ran datblygu eu medrau llythrennedd o fannau cychwyn isel. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrandao'n

astud a gyda diddordeb ar eu hathrawon a'u cyfoedion. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn defnyddio geirfa sy'n benodol i bwnc yn hyderus a chywir mewn trafodaethau ac yn eu meysydd dysgu. Er enghraifft, mewn gwallt a harddwch, mae dysgwyr yn cynnal ymgynghoriadau gwybodus gyda chleientiaid gan ddefnyddio geirfa dechnegol yn dda i esbonio pam y gallai triniaethau deuol fod yn amhriodol. Mewn arlwygo, mae dysgwyr lefel 1 yn hyderus wrth roi cyngor ar alergenau pan fyddant yn cyfathrebu â chwsmeriaid yn y tŷ bwyta hyfforddi. Defnyddia rhai dysgwyr mwy abl eu gwybodaeth flaenorol yn dda i esbonio termau a chysyniadau technegol mewn busnes, er enghraifft wrth drafod asedau caeth a phroffidioldeb, neu drefniadau busnes moesegol sy'n gysylltiedig â masnachu teg. Mewn rhai gwersi, mae lleiafrif o ddysgwyr yn rhoi atebion byr ac annatblygedig i gwestiynau neu maent yn amharod i gymryd rhan mewn trafodaeth.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn trefnu eu nodiadau'n dda, gan ddefnyddio gwybodaeth neu ymchwil flaenorol i ddangos dealltwriaeth glir o destunau a themau allweddol. Mewn sesiynau Saesneg TGAU, mae llawer o ddysgwyr yn crynhoi pwyntiau allweddol yn dda. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o feini prawf marcio arholiadau i wella'u hatebion ysgrifenedig.

Mae llawer o ddysgwyr yn ysgrifennu ar gyfer ystod eang o ddibenion a chynulleidfaoedd, gan gynnwys adroddiadau, llythyrau ffurfiol a thraethodau cynhwysfawr sy'n cysylltu'n dda â'u prif feysydd dysgu.

Yn gyffredinol, mae llawer o ddysgwyr yn prawfddarllen ystod o ysgrifennu estynedig yn dda i wella'u cywirdeb a'u mynegiant. Mae eu sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg yn gywir ar y cyfan, yn unol â'u gallu. Fodd bynnag, mae rhai dysgwyr yn parhau i wneud camgymeriadau sylfaenol mewn gwaith ysgrifenedig.

Mae gan lawer o ddysgwyr agweddau cadarnhaol at ddysgu ac mae eu hymddygiad yn dda iawn.

Mae llawer ohonynt yn cydweithio'n dda i gynllunio a threfnu eu gwaith. Er enghraifft, mewn sesiynau tiwtorial, mae dysgwyr yn gweithio'n dda mewn grwpiau ac yn unigol i gynllunio sut i wella'u medrau rheoli amser a threfniadaeth.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Cynigia'r coleg ystod eang o gyrsiau i gefnogi datblygiad medrau llythrennedd, gan gynnwys TGAU Saesneg, cyfathrebu Sgiliau Hanfodol Cymru a rhaglenni meithrin medrau. Mae yna strategaeth a phroses glir i ddysgwyr gwblhau rhaglenni ar lefel addas. Mae'r rhan fwyaf o feysydd dysgu'n defnyddio gwybodaeth am gyflawniad blaenorol ac asesiadau cychwynnol a diagnostig yn dda wrth gynllunio gweithgareddau medrau llythrennedd effeithiol mewn cynlluniau gwaith a chynlluniau gwersi. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd, ni chaiff cynlluniau eu haddasu'n ddigon da i herio dysgwyr mwy abl i ddatblygu medrau llythrennedd lefel uwch.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn sefydlu perthnasoedd gweithio cynhyrchiol gyda dysgwyr ac amgylcheddau dysgu da. Mae llawer o athrawon yn cynorthwyo dysgwyr yn dda ac yn dangos rheolaeth ystafell ddosbarth effeithiol.

Mewn llawer o wersi, mae athrawon yn fodelau iaith da ac maent yn annog dysgwyr i ddefnyddio geirfa eang wrth drafod ac ysgrifennu. Mae llawer ohonynt yn cynllunio'n effeithiol ac yn defnyddio ystod o strategaethau i sicrhau bod gweithgareddau llythrennedd yn berthnasol i'r meysydd dysgu ac yn ennyn diddordebau dysgwyr. Defnyddia mwyafrif yr athrawon gwestiynau'n effeithiol i adeiladu ar wybodaeth flaenorol dysgwyr ac ymestyn atebion llafar yn llwyddiannus.

Mewn sesiynau Saesneg TGAU, defnyddia athrawon ddeunyddiau heriol ac anodd yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chywirdeb mewn tasgau prawffdarllen. Yn y gwersi hyn, mae athrawon yn helpu dysgwyr i ysgrifennu brawddegau mwy cymhleth, defnyddio geirfa soffistigedig a datblygu eu hysgrifennu estynedig.

Mae llawer o athrawon yn marcio aseiniadau'n fanwl gan roi sylwadau adeiladol i wella sillafu, mynegiant a gramadeg. Rhoddant gyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr aiddrafftio'u gwaith. Mae llawer o ddysgwyr yn ymateb i adborth athrawon yn dda, ac o ganlyniad, mae eu gwaith yn dangos eglurder gwell o ran mynegiant a chywirdeb.

Mae'r coleg wedi cyflwyno 'taith medrau llythrennedd' yn ddiweddar. Cynlluniau dysgu unigol (CDUau) ar bapur yw'r rhain a ddefnyddiodd dysgwyr i gofnodi targedau y maent wedi eu nodi eu hunain, ac i olrhain y medrau y maent wedi eu dysgu mewn gwersi medrau ar wahân. Mewn rhai meysydd, mae hon yn broses effeithiol i alluogi dysgwyr ac athrawon i olrhain a monitro eu cynnydd mewn llythrennedd. Defnyddia bron pob un o'r athrawon CDUau electronig y coleg i gofnodi targedau llythrennedd o asemiadau diagnostig ar-lein. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn gweddu i dargedau yn y llyfrynnau llythrennedd yn gyson. Nid yw targedau llythrennedd yn y llyfrynnau yn berthnasol i brif gyrsiau a chymwysterau'r dysgwyr yn gyson.

Mae gan y coleg brosesau clir ac ystod briodol o adnoddau arbenigol i nodi dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae staff yn meddu ar gymwysterau perthnasol i gynorthwyo dysgwyr a'u helpu i gyflawni deilliannau llwyddiannus. Mae hyfforddwyr medrau yn meddu ar gymwysterau addysgu llythrennedd addas ac maent yn darparu cyfleoedd dysgu hyblyg i gefnogi datblygiad medrau dysgwyr.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu 'strategaeth medrau ar gyfer llwyddo' gynhwysfawr. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer gwella medrau yn y coleg, ac fe gaiff y weledigaeth hon ei deall yn dda gan bob un o'r staff. Defnyddia staff y strategaeth yn effeithiol wrth gynllunio a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. O ganlyniad, mae deilliannau mewn llythrennedd a rhifedd fel ei gilydd wedi dangos gwelliant sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ceir strwythur effeithiol ar gyfer rheoli medrau ar draws y coleg. Mae gan bob un o'r arweinwyr a'r cydlynwyr rolau a chyfrifoldebau clir ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r llinellau atebolrwydd. Mae arweinwyr ar gyfer medrau hanfodol, TGAU a chymorth dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu dull cydlynus ar gyfer datblygu medrau. Mae'r dull tîm hwn yn gryfder arbennig yn y coleg, ac mae wedi'i seilio ar gyfres o werthoedd ac ethos ar y cyd ar gyfer cynorthwyo dysgwyr unigol.

Mae arweinwyr yn dangos blaen-gynllunio clir wrth ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft trwy ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU.

Mae adolygiadau medrau blynyddol mewnol yn rhan annatod o'r prosesau rheolaidd a sefydledig ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r adolygiadau hyn wedi eu strwythuro'n dda o amgylch pedair thema, sef blaenoriaethu safonau, darpariaeth, cymorth ac ansawdd.

Mae'r adroddiad hunanasesu medrau yn arfarniad cywir a gonest o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae argymhellion o'r adolygiad medrau mewnol a'r adroddiad hunanasesu yn llywio'r cynllun datblygu ansawdd. Mae hwn wedi'i strwythuro'n dda ac yn adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad hunanasesu'n dda.

Ceir gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol i fonitro ac olrhain cyflawniadau a deilliannau ar gyfer medrau dysgwyr. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd a chysondeb yn y prosesau diweddar ar gyfer rheoli ansawdd targedau medrau dysgwyr a chofnodi cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau.

Caiff yr addysgu a'r dysgu eu harsylwi'n rheolaidd. Defnyddir canlyniadau o'r arsylwadau hyn yn dda i lywio datblygiad staff ar gyfer medrau, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi defnyddiol a rhannu arfer dda.

Rhifedd

Cyd-destun y maes dysgu

Caiff rhifedd yn y coleg ei addysgu trwy gymorth i ddysgwyr, dosbarthiadau Sgiliau Hanfodol Cymru, dosbarthiadau Bagloriaeth Cymru, dosbarthiadau TGAU ac ASO. Yn ystod yr arolygiad hwn, ni wnaethom arolygu ASO fel rhan o'r maes dysgu hwn.

Defnyddia'r coleg offeryn asesu cychwynnol a diagnostig safonol i nodi anghenion medrau dysgwyr. Mae deilliannau asesiadau cychwynnol ar gyfer 2015-2016 yn dangos bod 92% o ddysgwyr ar lefel 1 neu'n is pan fyddant yn dechrau yn y coleg.

Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod dysgwyr yn cael arweiniad addas i flaenoriaethu a gosod targedau rhifedd ystyrion a gwella'r cysondeb rhwng targedau y mae'r dysgwyr wedi eu dewis ei hun a thargedau o asesiadau diagnostig

A2 Cynyddu lefel yr her ar gyfer dysgwyr mwy abl fel eu bod yn cyflawni eu llawn botensial

A3 Gwella trylwyredd sicrhau ansawdd wrth olrhain a monitro targedau rhifedd

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Mae cyfradd llwyddo'r coleg mewn cymhwyso rhif Sgiliau Hanfodol Cymru yn dangos tuedd sylweddol o wella dros y tair blynedd ddiwethaf. Mae'r gyfradd llwyddo ar gyfer 2013-2014 ychydig islaw'r cymharydd cenedlaethol ac mae'r coleg yn y chwarter uwch o gymharu â chanlyniadau colegau eraill yng Nghymru. Mae data anghyhoeddedig ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod y tueddiadau mewn cyfraddau llwyddo yn parhau i wella.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cwblhau asesiad cychwynnol a diagnostig priodol ar ddechrau eu cwrs, a defnyddiant y wybodaeth hon yn briodol i nodi targedau rhifedd ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif o ddysgwyr yn gwbl ymwybodol o'u targedau rhifedd penodol na'r cynnydd y maent yn ei wneud tuag at eu cyflawni.

At ei gilydd, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwella'u medrau rhifedd yn dda dros gyfnod. Mae dysgwyr mewn dosbarthiadau medrau hanfodol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn amcanion gwersi. Maent yn ymarfer medrau presennol ac yn dysgu medrau newydd mewn ystod o wahanol gyd-destunau. Mae dysgwyr mewn arlwygo a lletygarwch yn datblygu medrau defnyddiol wrth gyfrifo cyfrannau ac maent yn gwella'u medrau mathemateg pen mewn amgylcheddau cegin prysur. Mae dysgwyr mewn peirianeg yn defnyddio medrau newydd i gyfrifo cyfaint siapiau silindraidd. Mae llawer o ddysgwyr yn gwella'u dealltwriaeth o gyfrifo rhifiadol yn dda ac yn datblygu'n fwy rhugl mewn medrau rhifedd bob dydd fel cyfrifo newid a deall a chyfrifo amser gan ddefnyddio clociau 12 awr a 24 awr.

Mae rhai dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o gysyniadau mathemategol datblygedig fel newid rhwng arian a chymharu gwybodaeth o ystod o ffynonellau. Mewn astudiaethau'r tir, mae dysgwyr yn datblygu dealltwriaeth gadarn o debygolrwydd trwy 'Ras Geffylau Pen-y-bont ar Ogwr' lle mae dysgwyr yn symud y ceffyl y maent wedi'i ddewis ar hyd cwrs yn unol â thaflu dau ddis. Trwy'r gweithgaredd hwn, byddant yn darganfod bod tebygolrwydd gwell o ennill y ras gan geffylau sydd â rhifau penodol.

Mae dysgwyr yn cyflwyno'u gwaith ar gyfer portffolios cymhwyster yn ddestlus a chywir. Fodd bynnag, ar draws pob maes dysgu, nid yw rhai dysgwyr yn cyflwyno'u gwaith rhifedd cyffredinol yn dda. Mae rhai dysgwyr yn tynnu llun graffiau, siartiau a diagramau nad ydynt yn ddigon clir a manwl ac ni all rhai dysgwyr wneud cyfrifiadau rhifiadol syml yn annibynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mwynhau eu gwersi rhifedd a mathemateg. Maent yn cymryd rhan yn dda ac yn ymgysylltu â'u dysgu gyda diddordeb a brwdfrydedd. Fodd bynnag, mewn rhai gwersi, mai rhai dysgwyr llai abl yn aml yn aflonyddgar ac nid ydynt yn cymryd rhan lawn yn y dysgu.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r coleg yn cynnig ystod briodol o gymwysterau mathemateg a rhifedd gan gynnwys Sgiliau Hanfodol Cymru, TGAU ac unedau credyd o lefel mynediad i lefel 3.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon berthynas gadarnhaol, broffesiynol a chefnogol gyda dysgwyr. Defnyddiant amrywiaeth o strategaethau a gweithgareddau addysgu'n dda i ennyn diddordeb y dysgwyr. Mae bron pob un o'r athrawon yn llunio cynlluniau gwaith strwythuredig a chynlluniau sesiwn manwl sy'n cefnogi eu haddysgu'n effeithiol. Maent yn cynllunio medrau rhifedd o amgylch testunau sy'n ddiddorol a pherthnasol i ddysgwyr.

Mae tua hanner yr athrawon yn cynllunio gweithgareddau i fodloni lefelau gwahanol y dysgwyr yn eu dosbarthiadau, yn enwedig dysgwyr gallu is. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn cynllunio'n ddigon da yn gyson i gynnig her addas i ddysgwyr mwy abl.

Mae rhai athrawon yn cynllunio gweithgareddau sy'n hwyl, ac yn y sesiynau hyn, mae lefel ymgysylltiad dysgwyr yn uchel. Er enghraifft, mewn teithio a thwristiaeth, defnyddia athrawon weithgareddau sy'n annog dysgwyr i gymryd rhan mewn gemau cystadleuol i ddatblygu medrau arian.

Mae rhai athrawon mewn gwersi medrau galwedigaethol yn datblygu medrau dysgwyr fel rhan o'u prif gwrs sy'n codi'n naturiol. Mewn dosbarthiadau ar wahân, mae athrawon yn cysylltu dysgu â chyd-destun eu prif gymhwyster. Gwna tua hanner yr athrawon ddefnydd da o fyrdau gwyn rhyngweithiol i ddarparu adnoddau ysgogol. Fodd bynnag, mewn rhai dosbarthiadau, ceir gormod o ddibyniaeth ar daflenni gwaith.

Defnyddia'r rhan fwyaf o athrawon holi targedig yn dda i asesu gwybodaeth. Mae llawer o athrawon yn defnyddio cwestiynau treiddgar yn effeithiol i ddatblygu medrau meddwl ac asesu dealltwriaeth dysgwyr. Defnyddiant asesu parhaus yn dda trwy gydol y wers i wirio cynnydd dysgwyr.

Mae marcio'r rhan fwyaf o athrawon yn gyfoes. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn rhoi sylwadau digon adeiladol i ddysgwyr i'w galluogi i wneud cynnydd.

Mae bron pob un o'r athrawon medrau hanfodol yn gwirio'n rheolaidd fod gan ddysgwyr dargedau ar eu llyfrynnau taith rhifedd. Cynlluniau dysgu unigol (CDUau) ar bapur yw'r rhain a ddefnyddir gan ddysgwyr mewn gwersi medrau i gofnodi targedau y maent wedi eu nodi drostynt eu hunain ac olrhain y medrau y maent wedi eu dysgu mewn gwersi. Defnyddia rai athrawon lyfrynnau taith y dysgwr yn dda iawn i olrhain a monitro'r targedau hyn. Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio CDUau electronig y coleg i gofnodi targedau dysgwyr o'u hasesiadau diagnostig ar-lein. Fodd bynnag, nid yw'r rhain yn cyd-fynd yn gyson â thargedau yn llyfrynnau taith y dysgwr. Nid yw targedau taith y dysgwr yn berthnasol i brif gwrs a chymwysterau'r dysgwyr yn gyson.

Mae gan y coleg strategaethau effeithiol ar gyfer helpu dysgwyr y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Defnyddia staff cymorth ystod briodol o adnoddau a strategaethau i wneud yn siŵr bod dysgwyr yn cyflawni deilliannau llwyddiannus. Mae hyfforddwy medrau yn darparu ystod ddefnyddiol ac effeithiol o gyfleoedd hyblyg i gefnogi datblygiad medrau.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae arweinwyr a rheolwyr wedi datblygu 'strategaeth medrau ar gyfer llwyddo' gynhwysfawr. Mae ganddynt weledigaeth glir ar gyfer gwella medrau yn y coleg, ac fe gaiff y weledigaeth hon ei deall yn dda gan bob un o'r staff. Defnyddia staff y strategaeth yn effeithiol wrth gynllunio a datblygu medrau llythrennedd a rhifedd dysgwyr. O ganlyniad, mae deilliannau mewn llythrennedd a rhifedd fel ei gilydd wedi dangos gwelliant sylweddol dros y tair blynedd ddiwethaf.

Ceir strwythur effeithiol ar gyfer rheoli medrau ar draws y coleg. Mae gan bob un o'r arweinwyr a'r cydlynwyr rolau a chyfrifoldebau clir ac mae ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r llinellau atebolrwydd. Mae arweinwyr ar gyfer medrau hanfodol, TGAU a gwaith cymorth i ddysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i ddarparu dull cydlynus ar gyfer datblygu medrau. Mae'r dull tîm hwn yn gryfder penodol yn y coleg ac mae wedi'i seilio ar set ar y cyd o werthoedd ac ethos ar gyfer cynorthwyo dysgwyr unigol.

Mae arweinwyr yn dangos blaengynllunio clir wrth iddynt ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol, er enghraifft trwy ddatblygu darpariaeth i ddysgwyr ailsefyll Saesneg a mathemateg TGAU.

Mae adolygiadau medrau blynyddol mewnol yn rhan annatod o'r prosesau rheolaidd a sefydledig ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio gwelliant. Mae'r adolygiadau hyn wedi eu strwythuro'n dda o amgylch pedair thema, sef blaenoriaethu safonau, darpariaeth, cymorth ac ansawdd.

Mae'r adroddiad hunanasesu medrau yn arfarniad cywir a gonest o gryfderau a meysydd i'w gwella. Mae argymhellion o'r adolygiad medrau mewnol a'r adroddiad hunanasesu yn llywio'r cynllun datblygu ansawdd. Mae hwn wedi'i strwythuro'n dda ac yn adlewyrchu canfyddiadau'r adroddiad hunanasesu'n dda.

Ceir gweithdrefnau sicrhau ansawdd priodol i fonitro ac olrhain cyflawniadau a deilliannau medrau dysgwyr. Fodd bynnag, mae diffyg trylwyredd a chysondeb yn y prosesau diweddar ar gyfer rheoli ansawdd targedau medrau dysgwyr a chofnodi cynnydd dysgwyr yn erbyn eu targedau.

Caiff yr addysgu a'r dysgu eu harsylwi'n rheolaidd. Defnyddir canlyniadau o'r arsylwadau hyn yn dda i lywio datblygiad staff ar gyfer medrau, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi defnyddiol a rhannu arfer dda.

Celf a Dylunio

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu celf, dylunio a'r celfyddydau perfformiadol yn rhan o faes y cwricwlwm ar gyfer y celfyddydau creadigol a thechnoleg gwybodaeth yn y coleg. Mae dysgu wedi'i leoli ar bedwar campws a chyrsgiau'n dechrau ar lefel 1. Mae'r rhan fwyaf o gyrsgiau'n cynnig llwybrau dilyniant i gyrsgiau addysg uwch yn y coleg.

Daw tua hanner yr holl ddysgwyr o ardaloedd difreintiedig. Mae gan ymhell dros draean y dysgwyr anghenion dysgu ychwanegol. Mae gan leiafrif ohonynt anghenion dysgu ychwanegol cymhleth. Mae'r gyfran hon gryn dipyn yn uwch nag ydyw mewn unrhyw adran arall yn y coleg, heblaw Medrau Dysgu'n Annibynnol. Er enghraifft, ar un cwrs lefel 3, mae gan dri chwarter y dysgwyr anghenion dysgu ychwanegol.

Argymhellion y maes dysgu

A1 Sicrhau bod yr addysgu'n ymestyn a herio pob dysgwr

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Rhagorol

Mae gan y maes dysgu duedd o wella'n gyson mewn cyfraddau cyrhaeddiad, cwblhau a llwyddiant dros dair blynedd fel bod deilliannau erbyn hyn yn agos at y cymharydd cenedlaethol, neu'n well. Mae cyfraddau llwyddo yn y celfyddydau perfformiadol ar gyfer cyrsiau sylweddol ychydig bach islaw'r cymharydd cenedlaethol, tra bod cyfraddau llwyddo mewn celf a dylunio ymhell uwchlaw. Mae data anghyhoeddedig a ddarparwyd gan y coleg ar gyfer 2014-2015 yn drylwyr ac yn dangos bod y duedd hon ar i fyny yn parhau. Mewn cyrsiau cerddoriaeth, y mae gormod o ddysgwyr wedi tynnu'n ôl ohonynt yn gynnwys yn hanesyddol, mae cyfraddau cadw'n gwella'n dda ar hyn o bryd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol cymhleth, yn gwneud cynnydd cryf a chyflym yn eu dysgu ac yn parhau i gyrsgiau uwch. Ceir llawer o enghreifftiau o ddysgwyr a ymunodd â'r coleg i ddilyn cyrsiau lefel 1 neu lefel 2 sy'n mynd ymlaen i addysg uwch. Mae'r cynnydd rhagorol a wna llawer o ddysgwyr sy'n dechrau â medrau cyfyngedig iawn yn nodwedd ragorol o gyflawniad dysgwyr.

Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn datblygu hunanhyder a medrau perfformio da iawn. Dangosant allu cryf o ran dawn a thechneg, gan gynnwys y gallu i berfformio coreograffi cymhleth gyda chywirdeb ac ymroddiad. Maent yn myfyrio ar eu perfformiad a'i arfarnu'n eithriadol o dda, gan ddatblygu mewnwelediad clir i sut gallant wella. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o sut gallant ddefnyddio cof emosiynol i wella ansawdd eu perfformiadau. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol fel ensemble mawr. Maent yn deall y safonau proffesiynol sy'n ofynnol o'r diwydiant ac yn gweithio'n galed i fodloni'r rhain.

Mae dysgwyr cerddoriaeth yn datblygu medrau perfformio i lefel uchel. Mae mwyafrif o ddysgwyr sy'n ymuno â chyrsgiau lefel 2 nad ydynt eto wedi datblygu arbenigedd mewn chwarae offerynnau yn ennill dealltwriaeth o theori cerddoriaeth yn gyflym ac yn magu hyder ac yn dysgu medrau mewn chwarae offerynnau.

Mae dysgwyr celf a dylunio yn cynhyrchu gwaith i safon uchel iawn ac yn arddangos eu gwaith ar draws y coleg. Defnyddiant lyfrau braslunio yn effeithiol, a daw'r rhan fwyaf ohonynt yn ddogfennau gweledol cyfoethog, sy'n cynnwys tystiolaeth o arbrofion helaeth, anodiadau a dadansoddiad wedi'i ystyried yn ofalus.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn rhoi cymorth i'w gilydd i ddatblygu eu medrau ymhellach. Maent yn ymfalchïo'n fawr yn eu gwaith a'u cyflawniadau.

Mae llawer o ddysgwyr yn dechrau cyrsiau gyda medrau llythrennedd a rhifedd gwael. Gwna bron pob un ohonynt gynnydd cryf o ran datblygu'r medrau hyn ac ennill cymwysterau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae bron pob un ohonynt yn glir iawn pam mae angen iddynt ddatblygu'r medrau hyn a'u bod yn helpu'r dysgwyr i gyflawni eu nodau dysgu ehangach. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella'r medrau hyn ymhellach. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu medrau llythrennedd digidol cadarn, er enghraifft trwy ddefnyddio cyfrifiaduron i ymgymryd â phrosiectau dylunio, golygu fideos a'u rhoi at ei gilydd, ymchwilio ar y rhyngwyd ar gyfer aseiniadau a chwblhau gwaith ysgrifenedig ar gyfer eu ffeiliau.

Mae llawer o ddysgwyr yn cymryd rhan yng nghystadlaethau'r Urdd ac mewn perfformiadau dwyieithog i ddatblygu eu medrau Cymraeg. Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol wedi cymryd rhan mewn prosiect menter dwyieithog, a oedd yn cynnwys gweithdai a thrafodaethau ag actorion dwyieithog.

Mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn cymryd rhan mewn sesiynau ac asesiadau ffitrwydd rheolaidd. Mae ganddynt ddealltwriaeth glir o fwyta'n iach a hydradu. Mae dysgwyr wedi ymateb yn dda i'r dewisiadau bwyta'n iach a gyflwynwyd yn y ffreutur.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mynychu'n dda ac yn ymddwyn yn dda mewn dosbarthiadau. Mae bron pob un ohonynt yn llawn cymhelliant ac yn ymdrechu i wella'u medrau. Maent yn cymryd cyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain, ond yn cymryd amser i gynorthwyo dysgwyr eraill yn dda. Mae llawer ohonynt yn defnyddio'r medrau hyn yn gynhyrchiol y tu allan i'r coleg i gael swydd yn perfformio'n gyhoeddus neu i gynhyrchu ac arddangos gwaith celf. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cymryd rhan yng ngweithgareddau'r coleg i gefnogi elusennau.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Ar draws y maes dysgu, gall dysgwyr ddilyn ystod eang o gyrsiau sy'n cyd-fynd â'u dewisiadau gyrfya a'u hanghenion pwnc arbenigol. Mae dysgwyr yn elwa ar ystod eang o bartneriaethau diwydiannol allanol sy'n ychwanegu gwerth yn uniongyrchol at brofiad dysgwyr. Er enghraifft, mae gweithwyr proffesiynol yn niwydiant y cyfryngau yn cynnal gweithdai ar gynhyrchu, cyfarwyddo a sinematograffi.

Mae'r maes dysgu'n nodi dysgwyr mwy abl a thalentog yn dda a chynigir cyfleoedd ychwanegol iddynt ddatblygu eu cryfderau a'u medrau trwy ymgymryd â thasgau estynedig heriol.

Defnyddir sgrinio diagnostig cychwynnol yn dda i nodi anghenion medrau'r holl ddysgwyr. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda fel eu bod yn digwydd yn naturiol mewn tasgau. Mae cymorth dysgu'n effeithiol ar draws y maes dysgu.

Mae athrawon yn cynllunio'n dda i gynnwys cyfleoedd i gynyddu ymwybyddiaeth dysgwyr am iaith a diwylliant Cymru ar draws rhaglenni dysgu, ac ymgysylltu ag addysg ar gyfer themâu datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn eu gwaith cwrs.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio sesiynau'n dda gan ystyried gwahanol anghenion eu dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn darparu lefelau addas o her ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae athrawon yn gosod gwaith sy'n rhy hawdd ac nid yw'n ennyn diddordeb pob dysgwr yn ddigonol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn meddu ar wybodaeth bynciol a thechnegol gyfoes ac yn ei defnyddio'n effeithiol. Defnyddia llawer o athrawon adnoddau dysgu o ansawdd uchel ac ystod eang o dechnegau addysgu i ymgysylltu â dysgwyr yn weithredol. Gwna'r rhan fwyaf o ddysgwyr ddefnydd da o gynlluniau dysgu unigol sydd wedi'u cysylltu'n agos ag asesu i osod targedau heriol i ddysgwyr wella.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn drylwyr ac yn rhoi adborth defnyddiol a rheolaidd i ddysgwyr ynghylch cynnydd ar eu cyrsiau. Defnyddia athrawon wybodaeth o asesiadau yn effeithiol i helpu gosod targedau heriol ar gyfer cynlluniau dysgu unigol dysgwyr. Mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o'u dysgwyr.

Mae gan y maes dysgu raglen ymsefydlu wedi'i chynllunio'n dda sy'n cyflwyno dysgwyr i iechyd a diogelwch, prosesau adrannol a phrosesau'r coleg yn dda. Mae sesiynau tiwtorial wedi'u strwythuro'n dda ac yn rhoi cymorth ac arweiniad da i ddysgwyr. Caiff dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol eu cynorthwyo'n dda ac fe gânt elwa'n llawn ar bob rhan o'r cwricwlwm.

Mae gan y maes dysgu systemau effeithiol i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau'n ymwneud â bwlio, gwahaniaethu neu aflonyddwch. Mae'r maes dysgu'n weithgar iawn yn hyrwyddo dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer pob dysgwr.

Mae gan fyfyrwyr celf, dylunio a'r cyfryngau leoedd stiwdio sy'n cynnwys offer da, gydag offer cyfoes arbenigol, yn ogystal â manau gweithdy ac ystafell dywyll. Mae'r theatr ar gampws Heol y Bont-faen ac adeilad academi'r celfyddydau yng Nghaerdydd yn cynnig cyfleusterau rhagorol i gefnogi dysgu.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Rhagorol

Mae arweinwyr wedi sefydlu ethos clir ac a ddeallir yn dda o berfformiad uchel yn y maes dysgu. Mae pob un o'r staff yn glir ynglŷn â disgwyliadau'r maes dysgu, ac mae hyn wedi arwain at ddeilliannau cryf parhaol ar gyfer dysgwyr. Mae rolau a chyfrifoldebau arweinwyr a rheolwyr yn glir iawn, ac fe geir cyfathrebu effeithiol rhwng rheolwyr a staff addysgu. Ceir llinellau atebolrwydd clir ac fe gaiff cyfrifoldebau eu dirprwyo'n briodol. Mae arweinwyr a rheolwyr yn darparu cyfarwyddyd effeithiol ac yn hyrwyddo safonau uchel yn gyson. Defnyddiant ddata yn hynod effeithiol i bennu amcanion a thargedau ar bob lefel. Mae staff addysgu'n deall datblygiad blaenoriaethau strategol eu meysydd, ac yn cyfrannu atynt yn dda. Mae morâl a chymhelliant staff yn y maes dysgu yn uchel iawn.

Mae rheolwyr yn hyrwyddo trafodaethau am faterion sicrhau ansawdd yn dda mewn cyfarfodydd adrannol ac mewn cyfarfodydd un-i-un gyda staff. Mae systemau a gweithdrefnau yn effeithiol o ran nodi a monitro tanberfformio a sicrhau bod profiad a deilliannau dysgwyr yn gwella'n barhaus. Er enghraifft, cynhelir cyfarfodydd adolygu busnes rheolaidd, sy'n ystyried recriwtio yn erbyn targedau, cyfraddau llwyddo ac archwilio hunanasesiadau cyrsiau. Mae hyn yn darparu proses drylwyr i nodi cyrsiau sy'n tanberfformio, a ddefnyddir wedyn i osod targedau i wella perfformiad. Caiff arfer orau o gyrsiau a chan athrawon arbenigol sy'n perfformio'n dda ei nodi a'i rhannu'n eang ar draws y maes dysgu. Mae'r maes dysgu'n cynnwys ffocws penodol ar ddatblygu cyfleoedd arloesol ar gyfer cydweithio rhwng adrannau.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn rhoi ystyriaeth dda i safbwyntiau dysgwyr wrth gynllunio darpariaeth. Cynhelir cyfarfodydd systematig gyda chynrychiolwyr myfyrwyr sydd, ynghyd â gwybodaeth o arolygon dysgwyr, yn bwydo i gynllunio'r cwricwlwm mewn ffordd hynod effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm cwrs yn blaenoriaethu adborth i ddysgwyr, sy'n arwain at welliannau gwirioneddol i ddysgwyr, er enghraifft, adolygiad o amserlennu asesiadau a strwythur yr amserlen.

Mae'r maes dysgu wedi sefydlu ystod eang o bartneriaethau effeithiol gyda chyflogwyr, grwpiau cymunedol a sefydliadau addysg uwch sy'n cyfrannu'n dda iawn at wella safonau a gyflawnir gan ddysgwyr ac yn cynnig estyniad gwerthfawr at gyfleoedd cwricwlaidd. Yn benodol, mae dysgwyr y celfyddydau perfformiadol yn elwa ar ystod eang o weithgareddau cyfoethogi sy'n deillio o gysylltiadau cynhyrchiol ag ysgolion drama sy'n darparu gweithwyr proffesiynol diwydiannol sy'n ymweld. Mae gan lawer o athrawon brofiad proffesiynol cyfredol ac mae hyn yn gwella'u haddysgu. Maent yn fodolau rôl dyheadol ar gyfer dysgwyr. Yng nghyrsiau'r cyfryngau, caiff dysgwyr gyfle i fynd ar leoliadau gwaith gyda chwmnïau teledu neu weithio ar gomisiynau byw gyda chleientiaid proffesiynol, ac mae sawl un ohonynt wedi cael eu henwebu ar gyfer gwobrau ffilm rhyngwladol ar gyfer ieuenctid.

Caiff staff gymorth ariannol gan gwmnïau lleol i ddatblygu darpariaeth. Yn Studio 34, er enghraifft, sicrhawyd cyfraniadau ariannol i addurno'r ganolfan a phrynu offer. Mae partneriaeth hynod o gryf gyda chyflogwr lleol mawr wedi galluogi adeiladu theatr wedi'i hadeiladu'n bwrpasol, gan alluogi dysgwyr i gynnal perfformiadau cyhoeddus mewn amgylchedd theatr proffesiynol.

Hamdden, Teithio a Thwristiaeth

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu chwaraeon, hamdden a thwristiaeth yn cyfrif am ryw 7% o'r ddarpariaeth yng Ngholeg Pen-y-bont ar Ogwr. Yn 2014-2015, roedd cyrsiau'n cael eu cyflwyno ar draws dau gampws ym Mhen-coed a Phen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r coleg yn cyflwyno ystod o gyrsiau amser llawn ar lefel 2 a lefel 3. Ar hyn o bryd, mae'r maes dysgu'n darparu cyrsiau mewn teithio a thwristiaeth, hyfforddiant chwaraeon a datblygiad, perfformiad a rhagoriaeth.

Argymhellion y maes dysgu

- A1 Gwella'r cyfraddau y mae'r holl ddysgwyr yn cwblhau eu cymwysterau arnynt yn llwyddiannus
- A2 Gwneud mwy i sicrhau bod dysgwyr yn cael cyfleoedd i ddysgu, ymarfer a datblygu eu medrau Cymraeg
- A3 Gwneud defnydd gwell o broffiliau dysgwyr i gynllunio gweithgareddau addysgu i ymestyn, herio a chynorthwyo dysgwyr

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Yn 2013-2014, roedd y gyfradd llwyddo ar gyfer cyrsiau sylweddol yn y maes dysgu yn agos at y cyfartaleddau cenedlaethol. Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r cyfraddau llwyddo cyffredinol ar gyfer dysgwyr wedi gwella rhywfaint. Mae'r maes dysgu'n gosod y coleg yn chwarterel uwch yr holl golegau yng Nghymru.

Mae data anghyhoeddedig y coleg ei hun ar gyfer 2014-2015 ar gyfer y diploma estynedig lefel 3 mewn chwaraeon a'r diploma mewn teithio a thwristiaeth yn dangos bod cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus wedi gwella'n sylweddol.

Mae llawer o ddysgwyr yn gwneud cynnydd cryf tuag at eu targedau dysgu. Maent wedi ymgysylltu ac wedi eu cymell. Mae llawer o ddysgwyr yn gosod a chytuno ar dargedau tymor byr a thymor hir gyda'u hathro. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwybod faint o gynnydd y maent wedi'i wneud a'r hyn y mae angen iddynt ei wneud i ennill eu cymhwyster.

Caiff yr holl ddysgwyr asesiadau cychwynnol a diagnostig ar ddechrau eu cwrs. Mae mwyafrif y dysgwyr yn gosod targedau llythrennedd a rhifedd defnyddiol, ac yn gweithio tuag atynt. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwella eu medrau llythrennedd a rhifedd, er enghraifft trwy ddefnyddio termau technegol chwaraeon neu gyfrifo canran y teithwyr sy'n mynd i wahanol gyrchfannau gwyliau. Mae dysgwyr yn gweithio gyda'i gilydd yn dda i wella eu medrau llythrennedd a rhifedd a chywiros

camgymeriadau ei gilydd. Mae safon gwaith ysgrifenedig y rhan fwyaf o ddysgwyr yn dda.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu ymwybyddiaeth gadarn o ddiwylliant a chyd-destun Cymru. Mae rhai dysgwyr sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio Cymraeg llafar fel rhan o'u hastudiaethau, yn enwedig mewn teithio a thwristiaeth. Er enghraifft, defnyddia dysgwyr y Gymraeg mewn senarios chwarae rôl gyda chwsmeriaid efelychiadol. Mae dysgwyr teithio a thwristiaeth yn dilyn cymwysterau Iaith ar Waith i wella'u medrau Cymraeg. Fodd bynnag, mewn chwaraeon, cyfyngedig yw'r cynnydd a wna dysgwyr wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg o'u manau cychwyn.

Mae dysgwyr yn yr academi chwaraeon elitaidd yn datblygu medrau technegol a thactegol mewn rygbi, pêl-droed a nifer o chwaraeon yn dda iawn. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon cystadleuol ac mae dysgwyr o'r coleg yn cystadlu'n rheolaidd mewn pencampwriaethau colegau Cymru a Phrydain.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn amgylchedd y coleg ac yn gwybod sut i adrodd am unrhyw faterion yn gysylltiedig â bwlio, aflonyddwch neu les. Rhoddir briff defnyddiol i ddysgwyr sy'n ymgymryd â gweithgareddau lleoliad gwaith ar beth i'w wneud os bydd unrhyw faterion iechyd a diogelwch yn codi.

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn mwynhau bywyd coleg ac yn cymryd rhan yn dda yng ngweithgareddau'r coleg. Maent yn foesgar a chwrtais ag ymwelwyr ac yn dangos parch ar y ddwy ochr at eu cyfoedion a'u hathrawon. Mae dysgwyr yn ymgymryd ag amrywiaeth o brosiectau cymunedol, er enghraifft trwy gasglu cit ac offer, sy'n cael eu cyfrannu at elusen sy'n eu dosbarthu i wledydd anghenus.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r maes dysgu'n cynnig ystod addas o ddarpariaeth sy'n bodloni anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r gymuned yn dda. Mae dysgwyr yn manteisio ar gyfleoedd profiad gwaith gwerthfawr sy'n datblygu eu medrau galwedigaethol a'u medrau cyflogadwyedd yn effeithiol.

Caiff datblygiad llythrennedd a rhifedd ei gynllunio'n gydlynus. Caiff medrau eu hymgorffori'n effeithiol mewn cynlluniau gwaith a'u datblygu'n dda trwy sesiynau Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae'r maes dysgu'n defnyddio profion diagnostig cychwynnol yn effeithiol i osod targedau a nodi dysgwyr y mae angen cymorth arnynt. Caiff y dysgwyr hyn eu cynorthwyo'n dda gan hyfforddwyr medrau.

Caiff y rhan fwyaf o ddysgwyr gyfleoedd buddiol i ddysgu am Gymru. Mewn teithio a thwristiaeth, caiff yr iaith Gymraeg ei hyrwyddo'n dda. Caiff dysgwyr sy'n siarad Cymraeg eu cynorthwyo'n dda gan y rheolwr Cymraeg a dwyieithrwydd. Mae dysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl yn datblygu eu Cymraeg yn effeithiol trwy gymhwyster yr iaith ar Waith. Fodd bynnag, mewn chwaraeon a hamdden, cyfyngedig yw'r cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu eu medrau Cymraeg.

Mae'r maes dysgu'n cynllunio'n dda ar gyfer cyfleoedd i ddatblygu gwybodaeth a gwerthoedd yn gysylltiedig ag addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Er enghraifft, fe wnaeth dysgwyr mewn chwaraeon a hamdden helpu i gynnal 'twrnamaint rygbi'r byd' ar gyfer ysgolion cynradd lleol.

Defnyddia bron pob un o'r athrawon wybodaeth bynciol a thechnegol gyfoes yn dda i hyrwyddo dysgu. Mae gan bron bob un ohonynt gynlluniau gwaith cynhwysfawr a chynlluniau gwersi manwl a chanddynt amcanion clir. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynllunio'n effeithiol ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau addysgu a dysgu sy'n ysgogi dysgwyr ac yn ennyn eu diddordeb. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio adnoddau dysgu'n dda i ymgysylltu â dysgwyr a gwella'u dysgu. Mae gan bron bob un o'r athrawon ddisgwyliadau uchel o ddysgwyr ac maent yn sefydlu perthnasoedd da sy'n meithrin dysgu effeithiol.

Mae mwyafrif yr athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol ar lefel briodol sy'n bodloni anghenion yr holl ddysgwyr, waeth beth fo'u gallu. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, nid yw athrawon yn cynllunio'n ddigon da i gynorthwyo dysgwyr llai abl a herio dysgwyr mwy abl. Mae gan bron bob un o'r athrawon broffiliau grŵp defnyddiol sy'n cynnwys manylion am anghenion dysgu unigol ym mhob dosbarth. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn eu defnyddio'n effeithiol wrth gynllunio'u haddysgu.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn defnyddio ystod eang o dechnegau i asesu cynnydd dysgwyr yn ystod sesiynau a addysgir. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o sesiynau, nid yw athrawon yn defnyddio'r technegau hyn yn ddigon effeithiol i asesu cynnydd dysgwyr.

Mae athrawon yn marcio gwaith dysgwyr yn dda, gyda sylwadau adeiladol manwl ynglŷn â sut gallant wella. Mae sesiynau tiwtorial yn bwrpasol ac yn rhoi cyfleoedd i ddysgwyr olrhain eu cynnydd eu hunain mewn medrau ac ar eu cwrs.

Mae athrawon, hyfforddwyr medrau a swyddogion lles yn darparu cymorth da iawn ar gyfer dysgwyr. Mae staff meysydd dysgu yn nodi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar ac yn eu cynorthwyo'n dda. Mae rhaglenni ymsefydlu'n gynhwysfawr ac yn paratoi dysgwyr yn dda ar gyfer astudio a bywyd yn y coleg.

Mae'r maes dysgu'n cynnwys ethos cryf o gynwysoldeb, goddefgarwch a pharch. Caiff cydraddoldeb ac amrywiaeth eu hyrwyddo'n dda trwy sesiynau tiwtorial a swyddogion lles.

Yn y maes dysgu, caiff adnoddau ac adeiladau eu cynnal yn dda ac maent yn darparu amgylchedd ysgogol sy'n cefnogi dysgu. Mae adeiladau arbenigol, fel y neuadd chwaraeon, yr ystafell ffitrwydd, yr ystafell berfformio a'r cyfryngau, yn gyfoes ac yn cael eu defnyddio'n effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae rheolwyr y ddau faes dysgu'n rhoi cyfarwyddyd clir i staff meysydd dysgu ac maent yn awyddus i ysgogi gwelliannau yn neilliannau dysgwyr. Mae rheolwyr a staff yn glir ynglŷn â'u cyfrifoldebau a'u llinellau atebolrwydd. Mae'r tîm rheoli a staff meysydd dysgu yn gweithio gyda'i gilydd yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol ag adrannau ar draws y coleg, fel gwasanaethau cymorth i ddysgwyr.

Ar draws y maes dysgu, ceir cyfathrebu clir ac mae morâl staff yn uchel ar y cyfan. Ceir amserlen effeithiol o gyfarfodydd ar bob lefel. Mae gan gyfarfodydd agenda sefydlog ddefnyddiol sy'n canolbwyntio ar bresenoldeb, llwyddiant ac ymddygiad dysgwyr, a chyfraddau cadw. Defnyddir y wybodaeth hon yn dda gan reolwyr a staff i fonitro dangosyddion perfformiad allweddol. Eir i'r afael â meysydd tanberfformio yn effeithiol.

Mae rheolwyr yn cynnal gwerthusiad blynyddol gyda staff. Gwna rheolwyr ddefnydd effeithiol o'r system werthuso i osod targedau heriol ar gyfer athrawon, sy'n dechrau cael effaith gadarnhaol ar lwyddiant dysgwyr. Mae athrawon yn elwa ar ystod o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus.

Mae rheolwyr yn arsylwi sesiynau addysgu fel rhan o'r cylch gwella ansawdd ar gyfer addysgu a dysgu. Cânt eu cynorthwyo'n dda gan reolwr addysgu a dysgu'r coleg. Mae rheolwyr yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda i nodi ble y gellir rhannu arfer dda neu ble mae angen cymorth ar athrawon.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen gywir, hunanfeirniadol a chynhwysfawr sy'n adlewyrchu'r maes dysgu'n dda. Mae'r adroddiad yn darparu asesiad cywir o gryfderau'r maes dysgu ac yn nodi'n glir ble mae angen gwelliannau. Mae'r cynllun datblygu ansawdd yn nodi meysydd i'w gwella'n dda ac mae'n nodi targedau amserol. Mae timau cwrs meysydd dysgu yn cyfrannu at yr hunanasesiad cyffredinol trwy adolygiadau ansawdd pynciau bob tair blynedd, ac mae'r rhain yn helpu i roi perchenogaeth i staff i wella safonau.

Mae rheolwyr yn mynychu cyfarfodydd rhwydwaith gyda cholegau eraill i rannu arfer orau a chyfrannu at ddatblygu mentrau newydd. Mae rheolwyr a staff yn cymryd rhan mewn rhwydweithiau amrywiol o arfer broffesiynol, fel Chwaraeon Cymru a Croeso Cymru. Defnyddiant y rhwydweithiau hyn yn dda i wneud yn siŵr eu bod yn ymateb yn effeithiol i anghenion y sector.

Mae'r maes dysgu wedi datblygu ystod eang o bartneriaethau effeithiol â phartneriaid lleol, cenedlaethol a rhyngwladol. Yn benodol, mae gan y coleg gysylltiad hynod effeithiol â chwmni rhyngwladol mawr i gefnogi dadansoddi perfformiad mewn chwaraeon ar gampws Pen-coed. Mae gan y meysydd dysgu berthnasoddedd gwerthfawr ag ysgolion a sefydliadau addysg uwch lleol. Caiff adnoddau fel y cae pêl-droed artiffisial 3G eu rhannu'n dda â'r gymuned leol.

Mae rheolwyr yn atebol am eu cyllideb eu hunain ac maent yn rheoli eu cyllid yn dda. Mae'r maes dysgu'n defnyddio cyllid grant yn dda i gefnogi darpariaeth gweithgareddau allgyrsiol.

Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

Cyd-destun y maes dysgu

Mae'r maes dysgu Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu yn dod o fewn maes cwricwlwm y Celfyddydau Creadigol a TG ac o fewn yr adran TG a'r Cyfryngau Creadigol. Dyma'r cyrsiau a gynigir yn y maes:

- Tystysgrif Estynedig Gyntaf BTEC mewn TGCh
- Tystysgrif Gyntaf lefel 1 a lefel 2 BTEC mewn TGCh
- Diploma 90 Credyd lefel 3 BTEC mewn TG
- Diploma Estynedig lefel 3 BTEC mewn TG (Datblygu Meddalwedd)

Ym mis Mawrth 2016, roedd tua 95 o ddysgwyr amser llawn. Nid oes unrhyw ddarpariaeth ran-amser yn y maes. Mae'r holl ddarpariaeth TGCh wedi'i lleoli ar gampws Heol y Bont-faen.

Argymhellion y maes dysgu

- A1 Gwella cyfraddau cwblhau'n llwyddiannus ar draws yr holl gyrsiau
- A2 Gwella cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu medrau rhifedd ym mhob rhaglen
- A3 Sicrhau bod athrawon yn defnyddio ystod eang o strategaethau i herio dysgwyr i lwyddo ar y lefel uchaf
- A4 Rhannu arfer orau wrth ddefnyddio technolegau ac asesu arloesol
- A5 Cynyddu cysylltiadau â chyflogwyr er mwyn gwella'r cwricwlwm a gynigir

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Da

Yn 2013-2014, roedd cyfraddau llwyddo ar gyfer pob cwrs yn y maes dysgu ddau bwynt canran uwchlaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae data anghyhoeddedig y coleg ei hun ar gyfer 2014-2015 yn dangos bod rhywfaint o ostyngiad mewn cyfraddau llwyddo. Fodd bynnag, ailstrwythurodd yr adran ei darpariaeth yn 2014-2015 ac nid yw'r ailstrwythuro hwn yn galluogi cymharu nodau cymhwyster yn uniongyrchol.

Caiff yr holl ddysgwyr asesiadau llythrennedd a rhifedd diagnostig. Maent yn ymwybodol o'u canlyniadau ac yn gwybod beth mae angen iddynt ei wneud i wella'r medrau hyn. Maent yn gosod a chytuno ar dargedau dysgu â'u hathrawon, ac mae llawer o ddysgwyr yn defnyddio system olrhain electronig y coleg yn dda i fonitro eu

cynnydd yn erbyn y targedau hyn. Mae portffolios bron pob un o'r dysgwyr yn cynnwys gwaith o safon dda sy'n briodol i lefel eu dysgu. Mae dysgwyr yn datblygu eu medrau llythrennedd yn dda ac yn elwa ar y ffordd y mae athrawon yn ymgorffori'r dysgu hwn yn eu sesiynau. Fodd bynnag, ni chaiff dysgwyr yr un cyfle i ymarfer a datblygu eu medrau rhifedd.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr ar bob lefel yn defnyddio terminoleg briodol. Maent yn cymryd rhan weithredol mewn sesiynau, yn siarad yn hyderus a gallant egluro eu meddyliau'n dda. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn datblygu eu medrau galwedigaethol yn dda. Mae dysgwyr lefel 3 a rhai o ddysgwyr lefel 2 yn defnyddio'r medrau hyn i gynnal gweithdy technegol TG Ilwyddiannus, gan ymgymryd â thasgau cynnal a chadw cyfrifiaduron ar gyfer dysgwyr, staff a'r cyhoedd.

Mae'r holl ddysgwyr yn dilyn cymwysterau'r laith ar Waith i ddatblygu eu medrau dwyieithog ar gyfer y gweithle.

Mae dysgwyr yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn mynd yn eu blaen i lefelau addysg uwch neu i gyflogaeth berthnasol.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynychu'n rheolaidd ac yn brydlon. Mae bron pob un o'r dysgwyr wedi ymgysylltu ac wedi eu cymell ac yn cynorthwyo'i gilydd i lwyddo. Gweithiant yn dda mewn parau a grwpiau a dangosant barch at eu cyfoedion a'u hathrawon.

Mae dysgwyr o bob lefel yn cymryd rhan mewn rhaglenni cymunedol. Er enghraifft, bu dysgwyr lefel 3 yn cymryd rhan mewn diwrnod glanhau traeth yn ddiweddar fel rhan o ymgyrch genedlaethol. Caiff y maes dysgu ei gynrychioli'n dda yn rhaglen llysgennad myfyrwyr y coleg.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Da

Mae'r maes dysgu'n cynnig cwricwlwm priodol. Mae'r maes yn cydweithio'n effeithiol â sefydliadau allanol i drefnu teithiau a phrosiectau defnyddiol ar gyfer dysgwyr. Defnyddir lleoliadau gwaith yn dda ar y diploma estynedig mewn TGCh i ddarparu profiadau ystyrlon ar gyfer dysgwyr.

Mae athrawon yn cynllunio'n briodol i ddatblygu medrau llythrennedd dysgwyr ac yn darparu cyfleoedd llythrennedd addas trwy eu meysydd pwnc. Mae bron pob un o'r athrawon yn cymhwyso canllaw marcio llythrennedd y coleg yn dda. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n datblygu cyfleoedd i integreiddio medrau rhifedd trwy eu meysydd pwnc.

Rhoddir cyfleoedd defnyddiol i ddysgwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl i ddatblygu eu Cymraeg yn effeithiol trwy gymhwyster laith ar Waith. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n defnyddio cyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu medrau Cymraeg dysgwyr trwy eu meysydd pwnc. Ychydig o athrawon yn unig sy'n defnyddio cyfleoedd i ddatblygu themâu addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn dda.

Mae mwyafrif yr athrawon yn gosod cyflymdra priodol yn eu gwersi. Maent yn cynllunio ystod addas o strategaethau addysgu ac yn cymhwyso meddalwedd ar gyfer dysgu'n dda. Maent yn gosod tasgau rhyngweithiol ac ymarferol yn effeithiol. Gwna rhai ohonynt ddefnydd da o dechnolegau a dulliau dysgu arloesol.

Mae bron pob un o'r athrawon yn defnyddio holi sylfaenol yn briodol. Fodd bynnag, ychydig o athrawon yn unig sy'n defnyddio holi yn effeithiol i brofi gwybodaeth a dealltwriaeth ddyfnach dysgwyr. Mewn ychydig iawn o achosion, nid yw athrawon yn galluogi dysgwyr i ddatblygu eu hatebion yn ddigonol.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar ac ysgrifenedig clir i ddatblygu dealltwriaeth dysgwyr a dangos yr hyn y mae angen iddynt ei wneud i wella. Maent yn gosod targedau tymor hir a thymor hir defnyddiol, sy'n cael eu cofnodi ar gynllun dysgu unigol electronig y dysgwr ac yn monitro'r rhain yn rheolaidd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, nid yw athrawon yn ymestyn dysgwyr mwy abl â gweithgareddau neu nodau dysgu digon heriol.

Mae gan bron bob un o'r athrawon broffiliau grŵp cynhwysfawr a buddiol ac maent yn adnabod eu dysgwyr yn dda. Defnyddiant y wybodaeth hon yn dda ar y cyfan i roi cymorth effeithiol i ddysgwyr unigol, gan gynnwys y rheiny ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un o'r dosbarthiadau'n elwa ar gynorthwywyr ystafell dosbarth ac fe gaiff y maes dysgu ei gefnogi'n dda gan swyddogion lles y coleg.

Mae gan y maes dysgu systemau a gweithdrefnau effeithiol i atal gwahaniaethu ac aflonyddwch. Mae bron pob un o'r ystafelloedd dosbarth yn addas at eu diben, gydag adnoddau digonol ac arddangosfeydd da o waith dysgwyr. Mae'r maes dysgu wedi buddsoddi mewn cyfrifiaduron llechen ac wedi trawsnewid ystafell ddosbarth yn stiwdio podledu. Gwneir defnydd da o'r stiwdio hon gan lawer o ddysgwyr, yn enwedig y rheiny sy'n astudio Bagloriaeth Cymru, i gofnodi tystiolaeth ar gyfer eu cymhwyster.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Da

Mae'r maes dysgu wedi wynebu llawer o newidiadau yn y pum mlynedd ddiwethaf. Penodwyd rheolwr y maes cwricwlwm a'r arweinydd adran yn fewnol yn ddiweddar ac mae ganddynt weledigaeth a chyfeiriad clir ar gyfer y maes dysgu. Maent wedi gosod targedau heriol ar gyfer gwella.

O ganlyniad i hyn, mae'r coleg yn darparu cynnig cwricwlwm diwygiedig, sy'n adlewyrchu anghenion presennol dysgwyr a chyflogwyr ac yn ystyried blaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae staffio yn y maes wedi lleihau'n sylweddol gan ddefnyddio rhaglen gynlluniedig o ddiswyddiadau gwirfoddol. Mae arweinwyr a rheolwyr wedi gweithio'n dda i gynnal morâl staff, ac mae staff wedi ymrwymo'n gryf i nodau'r maes dysgu. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn dda iawn i gyflawni'r weledigaeth hefyd.

Mae'r maes dysgu'n cyfarfod yn rheolaidd â'i lywodraethwr cyswllt, sy'n cynnig cyngor ac arweiniad ar ddarpariaeth y cwricwlwm ac yn herio adolygiadau ansawdd yn drylwyr. Mae'n mynychu nosweithiau gwobrwyo a chyflwyniadau ac yn cyfarfod â dysgwyr a staff i drafod eu cynnydd.

Caiff cylch ansawdd y coleg ei ddefnyddio'n effeithiol yn y maes dysgu i adolygu perfformiad y cwrs, ac mae cyfarfodydd tîm a maes rheolaidd yn sicrhau bod pob un o'r staff yn ymwybodol o berfformiad dysgwyr a'r hyn y mae angen ei wella. Ymatebodd y maes dysgu'n gyflym i safbwyntiau negyddol dysgwyr yn arolwg Llais y Dysgwr 2015 ac mae newidiadau i'r cwricwlwm a staffio wedi arwain at ganlyniad cadarnhaol iawn yn arolwg dysgwyr y coleg ei hun yn ddiweddar.

Mae'r maes wedi cydnabod bod angen gwella cyfraddau presenoldeb a chyfraddau cwblhau dysgwyr, ac eleni, mae'n gweithio'n effeithiol iawn gydag adran lles a chymorth y coleg i fynd i'r afael â diffyg presenoldeb a dysgwyr sydd mewn perygl o roi'r gorau i'w haddysg.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn ddogfen ddefnyddiol ac mae'n nodi'r cryfderau a'r meysydd i'w gwella yn y maes yn gywir. Er enghraifft, mae'r maes wedi cydnabod bod cysylltiadau â chyflogwyr yn gyfyngedig a bod angen iddo weithio i wella'r rhain. Ceir arwyddion o weithio'n well mewn partneriaeth, sydd wedi cael effaith gadarnhaol ar ddysgwyr. Er enghraifft, ymwelodd grŵp lefel 3 â ffatri electroneg leol ac, o ganlyniad, cafodd dysgwyr leoliadau gwaith, a chynigiwyd swyddi iddynt yn ddiweddarach.

Caiff adnoddau eu rheoli'n effeithiol. Yn sgil newidiadau yn y lefelau staffio a'r cwricwlwm a gynigir, mae athrawon yn gweithio ar draws holl lefelau'r cwricwlwm, ac maent yn gwneud hyn yn dda iawn, gan ddefnyddio eu gwybodaeth arbenigol i ddatblygu medrau dysgwyr yn briodol.

Mae staff yn ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus rheolaidd ac mae llawer ohonynt yn aelodau o gyrrff proffesiynol ac yn manteisio ar yr hyfforddiant diweddar a gynigir gan y sefydliadau hyn. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn y maes dysgu yn manteisio'n ddigonol ar gyfleoedd i rannu arfer dda â'i gilydd, yn enwedig mewn perthynas â'r arfer orau wrth ddefnyddio technolegau ac asesu arloesol.

Medrau Byw yn Annibynnol

Cyd-destun y maes dysgu

Mae maes dysgu medrau byw yn annibynnol / astudiaethau cyn-alwedigaethol yn darparu cyrsiau o lefel cyn mynediad i lefel 1 i fodloni anghenion dysgwyr sydd ag ystod eang o anghenion dysgu. Mae'r rhain yn cynnwys dysgwyr sydd ag anabledau corfforol a synhwyraidd, ac awtistiaeth.

Mae dysgwyr yn dilyn cyrsiau mewn cynnydd personol, medrau bywyd a chyflogadwyedd yn unol â'u gallu. Mae'r adran yn recriwtio tua 50 o ddysgwyr amser llawn bob blwyddyn yn nodweddiadol. Mae hyn yn cynnwys dysgwyr sy'n byw yn Nhŷ Weston, sef darpariaeth breswyl arbenigol y coleg ar gyfer dysgwyr ag anawsterau dysgu, anabledau corfforol a synhwyraidd, ac awtistiaeth. Ni chaiff yr agwedd breswyl ar y ddarpariaeth i ddysgwyr sy'n byw yn Nhŷ Weston ei chwmpasu yn yr arolygiad hwn.

Nid yw'n briodol cymharu safonau dysgwyr â chyfartaleddau cenedlaethol na dadansoddi tueddiadau perfformiad grwpiau dros gyfnod oherwydd natur anghenion y dysgwyr.

Argymhellion y maes dysgu

- A1 Cyflwyno systemau sy'n nodi medrau a galluoedd dysgwyr ac olrhain eu cynnydd yn gywir mewn perthynas â manau cychwyn unigol
- A2 Sicrhau bod targedau ar gynlluniau addysg unigol dysgwyr yn mynd i'r afael â'r medrau y bydd eu hangen ar ddysgwyr yn eu bywydau yn y dyfodol
- A3 Gwella ansawdd addysg sy'n gysylltiedig â gwaith ar gyfer yr holl ddysgwyr
- A4 Sicrhau bod cynllunio athrawon yn cynnwys profiadau dysgu sy'n bodloni anghenion a galluoedd yr holl ddysgwyr yn y grŵp
- A5 Rhoi prosesau hunanarfarnu ar waith sy'n canolbwyntio'n ddigonol ar ddeilliannau dysgwyr

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Digonol

Mae bron pob un o'r dysgwyr yn gwneud cynnydd da wrth ennill ystod briodol o gymwysterau mewn cynnydd personol, medrau byw yn annibynnol a chyflogadwyedd. Wedi iddynt gwblhau eu cwrs, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn mynd yn eu blaenau'n llwyddiannus i ddilyn cyrsiau eraill yn y maes dysgu. Yn 2014-2015, aeth tua thraean o ddysgwyr yn eu blaenau i ddilyn cyrsiau lefel uwch, a llwyddodd ychydig dros hanner y dysgwyr i gwblhau cymwysterau pellach ar yr un lefel. Fodd bynnag, ni all y coleg gyfrif am gyrchfannau ychydig dros 10% o ymadawyr y llynedd.

At ei gilydd, nid yw asesiadau cychwynnol o alluoedd dysgwyr unigol yn gynhwysfawr na chywir. Nid yw targedau ar gynlluniau addysg unigol dysgwyr yn adlewyrchu eu hanghenion a'u galluoedd yn ddigonol. Nid oes gan y coleg systemau effeithiol ar gyfer cofnodi ac olrhain cynnydd dysgwyr mewn meysydd medrau pwysig. O ganlyniad, ni all rheolwyr ddangos nac arfarnu faint o gynnydd a wna dysgwyr wrth ddatblygu eu medrau mewn perthynas â'u cyrhaeddiad blaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn gwrando'n ofalus ar eu hathrawon ac yn ymateb yn briodol i gyfarwyddiadau a chwestiynau heb lawer o anogaeth. Fodd bynnag, mae dysgwyr llai abl yn dangos gallu cyfyngedig wrth alw eu dysgu blaenorol i gof. Mae'r mwyafrif ohonynt yn gwrando ar ei gilydd yn dda ac yn trafod eu gwaith gyda'i gilydd mewn paru a grwpiau yn effeithiol. Mae dysgwyr mwy abl yn ymchwilio a gwneud cyflwyniadau i'w dosbarth ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau grŵp, gan ymateb i gwestiynau a chyfiawnhau eu safbwynt yn llwyddiannus.

Mae'r holl ddysgwyr yn ymarfer a datblygu eu medrau darllen yn unol â'u gallu. Mae lleiafrif o ddysgwyr yn darllen â hyder a mynegiant. Mae rhai ohonynt yn darllen testunau anos i gael hanfod y testun a chrynhof pwyntiau allweddol yn effeithiol.

Mae mwyafrif y dysgwyr yn ysgrifennu'n glir ac yn cymryd gofal addas â chyflwyno eu gwaith. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymarfer eu medrau ysgrifennu'n dda. Fodd bynnag, nid yw dysgwyr mwy abl yn datblygu eu medrau ysgrifennu estynedig cystal ag y gallent gan fod taflenni gwaith yn cael eu defnyddio'n rhy aml.

Mae llawer o ddysgwyr yn datblygu a chymhwyso eu medrau rhifedd mewn perthynas â medrau bywyd yn dda, er enghraifft wrth ddweud yr amser ac wrth adnabod darnau arian. Mae dysgwyr mwy abl yn cynnal arolygon syml ac yn cyfrifo canrannau'n gywir. Maent yn amcangyfrif prisiau eitemau bwyd a nwyddau'r cartref yn gywir ac yn cwblhau cyfrifiadau syml mewn perthynas â'r rhain yn llwyddiannus.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymddwyn yn dda mewn gwersi ac o gwmpas y coleg. Maent yn foesgar a chwrtais ag oedolion a'u cyfoedion. Mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu, maent yn ymgysylltu'n dda mewn gwersi ac yn canolbwyntio'n effeithiol ar eu gwaith. Mae presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr yn y maes dysgu yn gryfder.

Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel yn y coleg ac yn gwybod at bwy i droi os bydd ganddynt broblem. Fodd bynnag, ni all y coleg ddangos tystiolaeth o agweddau dysgwyr at fyw yn iach a'u lles eu hunain. At ei gilydd, ychydig iawn o ddysgwyr sy'n cymryd rhan mewn ymarfer corff neu weithgareddau eraill sydd wedi eu cynllunio i godi safonau eu hiechyd a'u ffitrwydd. Mae rhai dysgwyr yn gweithredu fel cynrychiolwyr cyrsiau ac yn mynychu cyfarfodydd llais y dysgwr bob tymor. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn y maes dysgu'n glir ynglŷn â rôl eu cynrychiolydd cwrs neu am effaith ei (g)waith.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Digonol

Mae'r maes dysgu'n darparu cwricwlwm perthnasol at ei gilydd, sy'n rhoi pwyslais priodol ar ddatblygu medrau bywyd dysgwyr a'u dealltwriaeth o fyd gwaith. Mae'n darparu ystod addas o gymwysterau sy'n galluogi llawer o ddysgwyr i wneud cynnydd da i ddilyn cyrsiau eraill yn y coleg.

Mae dysgwyr ar gwrs medrau gwaith lefel 1 yn elwa ar leoliadau profiad gwaith allanol gwerthfawr sy'n cefnogi eu dysgu yn y coleg yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw mwyafrif y dysgwyr ar gyrsiau cyn-alwedigaethol yn cael cyfle i gymryd rhan mewn dysgu ystyrlon sy'n gysylltiedig â gwaith nac i ddatblygu dealltwriaeth alwedigaethol mewn lleoliad realistig.

Mae gan bob un o'r athrawon berthnasoedd proffesiynol cadarnhaol gyda dysgwyr sy'n seiliedig ar barch ar y ddwy ochr. Maent yn fodolau rôl effeithiol ac yn darparu ffiniau clir ar gyfer dysgwyr. Mae ganddynt wybodaeth bynciol dda ac, at ei gilydd, defnyddiant y wybodaeth hon yn dda i lunio'r profiad dysgu.

Mae staff cymorth yn adnabod dysgwyr yn dda, ac mewn llawer o wersi, maent yn darparu lefel briodol o gymorth i alluogi dysgwyr i wneud cynnydd addas yn eu dysgu. Mewn lleiafrif o wersi, maent yn herio dysgwyr yn effeithiol i ddatblygu eu dealltwriaeth ymhellach.

Gwna mwyafrif yr athrawon ddefnydd da o holi yn unol â galluoedd dysgwyr. Er enghraifft, defnyddiant gwestiynau penagored i wirio a datblygu dealltwriaeth dysgwyr. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o wersi, mae defnydd athrawon o holi wedi ei gyfyngu i gwestiynau byr a chaeedig nad ydynt yn annog dysgwyr i ymestyn eu hatebion.

Mewn llawer o wersi, mae'r dysgu'n symud yn rhy araf a gyda gormod o gyfarwyddyd gan yr athro. Mae diffyg her mewn llawer o weithgareddau. Nid yw'r rhain yn datblygu annibyniaeth, medrau ymarferol a dealltwriaeth yn ddigonol. Mewn ychydig iawn o wersi yn unig y mae athrawon yn darparu tasgau estynedig addas ar gyfer dysgwyr. O ganlyniad, nid yw dysgwyr yn gwneud cynnydd cystal ag y gallent.

Mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwaith wedi eu cynllunio'n dda, ac mae'r rhan fwyaf o gynlluniau gwersi'n cynnwys ystod o weithgareddau i ennyn diddordeb dysgwyr, a chynnal eu ffocws. Fodd bynnag, at ei gilydd, mae cynllunio wedi'i seilio'n ormodol ar ofynion cymwysterau ac ni roddir digon o ffocws ar anghenion a galluoedd unigol dysgwyr.

Ym mhob un o'r gwersi a arsylwyd, mae staff yn darparu adborth llafar parhaus a chadarnhaol. Mae marcio gwaith dysgwyr yn gyfoes ar y cyfan. Fodd bynnag, mae amrywiad sylweddol yn ansawdd ac effaith y marcio ar wella gwaith dysgwyr. Nid yw sylwadau llawer o athrawon yn darparu cyngor digon clir ar yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella'u gwaith. Nid yw'r cyfleoedd i ddysgwyr gael eu cynnwys mewn asesu eu dysgu eu hunain a dysgwyr eraill wedi eu datblygu'n ddigonol.

Mae staff yn yr adran yn adnabod anghenion meddygol ac ymddygiadol dysgwyr yn dda. Maent yn darparu cymorth ac arweiniad gwerthfawr ar draws ystod o faterion cymdeithasol a phersonol ar gyfer yr holl ddysgwyr. Fodd bynnag, nid oes gan yr adran gwricwlwm digonol mewn perthynas ag addysg yn gysylltiedig ag iechyd rhyw a chyffuriau sy'n bodloni anghenion pob un o'r dysgwyr.

Mae trefniadau pontio ag ysgolion yn effeithiol, ac mae hyn yn cyfrannu at lefelau cadw uchel dysgwyr yn yr adran.

Mae gan y coleg ethos cynhwysol sy'n sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael yr un cyfle i elwa ar y cwricwlwm. Caiff yr ardal ddysgu ei chynnal yn dda ac mae wedi ei haddurno'n ddeniadol. Mae arddangosfeydd ar y waliau yn gyfoes ac yn dathlu cyflawniadau dysgwyr yn effeithiol.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Anfoddhaol

Dros y pum mlynedd ddiwethaf, gwnaed newidiadau sylweddol i'r ffordd y caiff y maes dysgu ei reoli. O ganlyniad, nid oes gweledigaeth ddigon clir sydd wedi'i seilio'n gadarn ar anghenion dysgwyr ar hyn o bryd, ac yn y dyfodol.

Mae rolau a chyfrifoldebau pob aelod o staff yn glir. Ceir ystod briodol o gyfarfodydd. Fodd bynnag, nid yw'r cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio cystal ag y gallent ar gynnydd dysgwyr, darpariaeth bresennol neu faterion eraill sy'n berthnasol i'r adran.

Nid yw cyfarfodydd bob amser yn darparu crynodeb o'r camau gweithredu ac nid eir i'r afael â'r rhain yn gyson. O ganlyniad, nid oes gan reolwyr ddealltwriaeth ddigon cadarn o'r adran.

Mae trefniadau rheoli perfformiad ar waith ar gyfer staff addysgu a staff cymorth fel ei gilydd. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion gwella ar gyfer staff addysgu yn adlewyrchu arsylwadau arfer ystafell ddosbarth yn ddigonol, ac nid ydynt yn nodi eu hanghenion datblygiad proffesiynol.

Mae'r maes dysgu wedi amlinellu ystod eang o amcanion gwella, ac mae'r rhain yn canolbwyntio'n briodol ar wella ansawdd y ddarpariaeth bresennol a phrofiadau dysgu'r dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw'r amcanion gwella hyn yn cyd-fynd yn ddigon da â'r tair blaenoriaeth a nodwyd yn y cynllun datblygu ansawdd.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn wan. Nid yw'n defnyddio unrhyw dystiolaeth uniongyrchol ar ansawdd yr addysgu na'r dysgu nac agweddau pwysig eraill ar waith yr adran. O ganlyniad, nid yw'r adroddiad hunanasesu yn dangos dealltwriaeth ddigon cadarn o gryfderau'r adran a'i meysydd i'w gwella. Nid yw'n glir sut mae gweithdrefnau'r maes dysgu ar gyfer hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwella yn adlewyrchu anghenion y dysgwyr.

Mae'r maes dysgu'n gweithio gydag ystod briodol o bartneriaid. Mae cysylltiadau ag ysgolion arbennig lleol yn hynod effeithiol o ran cefnogi cyfnod pontio dysgwyr i'r coleg. Mae nifer fach o fusnesau lleol yn darparu lleoliadau profiad gwaith gwerthfawr ar gyfer dysgwyr. Mae'r rhain yn galluogi dysgwyr i ddatblygu medrau newydd ac yn rhoi ymdeimlad o falchder a chyflawniad i ddysgwyr.

Defnyddir staff yn effeithiol. Maent yn meddu ar gymwysterau a phrofiad priodol mewn gweithio gyda dysgwyr ag anghenion addysgol arbennig. Fodd bynnag, nid yw'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol i staff ymestyn eu gwybodaeth am ystod yr anghenion addysgol arbennig wedi eu datblygu'n ddigonol.

Technolegau Peirianeg a Gweithgynhyrchu

Cyd-destun y maes dysgu

Mae cyrsiau peirianeg a thechnolegau gweithgynhyrchu yn cynrychioli tua 8% o ddarpariaeth y coleg. Cyflwynir cyrsiau peirianeg ar y prif gampws yn y cyfleusterau peirianeg arbenigol.

Mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno ystod eang o gyrсияu amser llawn. Maent yn cyflwyno cyrsiau rhan-amser ar gyfer dysgwyr prentisiaeth cyflogedig a disgyblion cyswllt ysgol. Yn y flwyddyn bresennol, 2015-2016, mae 195 o ddysgwyr amser llawn yn mynychu cyrsiau.

Ar hyn o bryd, mae'r ddarpariaeth yn cyflwyno cyrsiau mewn: peirianeg electronig, peirianeg fecanyddol a pheirianeg cerbydau modur.

Argymhellion y maes dysgu

- A1 Gwella'r cyfraddau y mae dysgwyr yn ennill eu cymwysterau arnynt
- A2 Gwella ansawdd a chysondeb yr addysgu a'r asesu
- A3 Sicrhau bod pob un o'r athrawon yn defnyddio'r canllaw marcio llythrennedd a rhifedd i wella ansawdd gwaith dysgwyr
- A4 Gwella cyflymdra a her sesiynau
- A5 Sicrhau bod gweithdrefnau monitro a gwella yn cynnwys pob un o'r staff a'u bod yn arwain at welliannau mewn safonau

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Barn: Digonol

Dros y tair blynedd ddiwethaf, mae'r maes dysgu'n dangos tuedd gyson o welliant yng nghyfraddau llwyddo cyffredinol y dysgwyr. Mae data anghyhoeddedig y coleg ei hun ar gyfer 2014-2015 yn drylwyr ac yn dangos bod cyfradd llwyddo dysgwyr wedi parhau â'r duedd o welliant. Fodd bynnag, dros y cyfnod hwn, mae'r cyfraddau llwyddiant mewn cyrsiau sylweddol islaw'r cymharydd cenedlaethol. Mae hyn yn gosod y perfformiad dros y tair blynedd ddiwethaf yn y chwarteli hanner is a'r chwarteli isaf.

Mae mwyafrif o ddysgwyr yn gwneud cynnydd priodol mewn dosbarthiadau, ac mae lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu ac yn dangos cymhwysedd ymarferol cadarn wrth ymgymryd ag ystod eang o dasgau. Er enghraifft, defnyddiant beiriannau melino'n dda i gynhyrchu eitemau yn unol â goddefgarwch a dangosant gymhwysedd wrth dynnu ac ailosod systemau crogiant mewn cerbydau. Mewn dosbarthiadau, mae gan lawer o ddysgwyr wybodaeth gadarn am theori sy'n gysylltiedig â'u harbenigedd mewn peirianeg.

Caiff yr holl ddysgwyr asesiad cychwynnol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn ymwybodol o'u targedau llythrennedd a rhifedd a gallant fynd atynt yn hawdd trwy gynllun dysgu unigol electronig y coleg.

Caiff gwaith ysgrifenedig mwyafrif y dysgwyr ei gyflwyno'n briodol ac mae'n dangos gwelliant yn eu llythrennedd ers iddynt ddechrau eu cwrs. Mae'r dysgwyr hyn yn cyflwyno'u gwaith yn dda ar y cyfan, gan ddefnyddio sillafu ac atalnodi cywir. Mae mwyafrif y dysgwyr yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda. Dangosant gymhwysedd a chywirdeb gwell wrth ddefnyddio cyfrifiadau peirianeg.

Mae dysgwyr yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael cymorth da yn y coleg. Mae bron pob un o'r dysgwyr yn dangos parch at ei gilydd ac at eu hathrawon. Mewn gweithdai ac ardaloedd ymarferol, mae dysgwyr yn rhoi sylw i iechyd a diogelwch. Mewn ystafelloedd dosbarth, gweithdai ac o gwmpas y ddarpariaeth, mae dysgwyr yn ymddwyn a gweithio'n dda â'u hathrawon a'u cyfoedion.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Barn: Digonol

Mae'r maes dysgu'n cyflwyno ystod briodol o gyrsiau i fodloni anghenion dysgwyr a diwydiant lleol.

Mae gan y maes dysgu gynllun marcio priodol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid yw athrawon yn y maes dysgu yn ei ddefnyddio'n ddigon cyson i helpu i wella medrau dysgwyr. Mae'r rhan fwyaf o diwtoriaid medrau hanfodol yn rhoi cymorth buddiol i ddysgwyr mewn llythrennedd a rhifedd ac maent yn fodolau iaith da. Fodd bynnag, nid yw athrawon galwedigaethol yn rhoi digon o gymorth ar gyfer medrau yn gyson.

Mae mwyafrif o athrawon yn cynnwys yr iaith Gymraeg neu'i diwylliant yn eu haddysgu ar adegau priodol. Fodd bynnag, nid yw rhai athrawon yn manteisio ar gyfleoedd sy'n digwydd yn naturiol i ddatblygu dealltwriaeth a gwybodaeth dysgwyr yn llawn am yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio'u gwersi'n dda. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod briodol o strategaethau addysgu. Mae mwyafrif y sesiynau gweithdy ymarferol yn gyflym, yn ddiddorol ac yn ddifyr i ddysgwyr. Mae mwyafrif y sesiynau theori wedi eu cynllunio'n dda, yn ddifyr ac yn heriol. Fodd bynnag, mae rhediad a her gwersi'n amrywio gormod ar draws y ddarpariaeth. Mewn lleiafrif o sesiynau, mae rhediad y dysgu'n rhy araf ac nid yw athrawon yn ennyn diddordeb dysgwyr nac yn darparu her ddigonol. Mewn rhai sesiynau, mae dysgwyr yn oddefol yn rhy hir.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn rhoi adborth llafar adeiladol i ddysgwyr. Mae mwyafrif yr athrawon yn rhoi adborth ysgrifenedig defnyddiol ar waith dysgwyr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif ohonynt yn rhoi adborth ysgrifenedig digon manwl ar yr hyn y mae angen i ddysgwyr ei wneud i wella, nac yn defnyddio holi cyfeiriedig priodol i wirio dealltwriaeth dysgwyr.

Mae adnoddau yn y maes dysgu yn briodol ac yn gweddu i anghenion dysgwyr yn dda. Gwna athrawon ddefnydd effeithiol o system electronig y coleg i olrhain dysgwyr i gofnodi a herio ymddygiad gwael dysgwyr a darparu adroddiadau cynnydd ar gyfer rhieni.

Mae gan y maes dysgu ystod dda o weithdai ymarferol ac ystafelloedd dosbarth theori. Caiff cyfleusterau eu cynnal yn dda ac fe geir adnoddau priodol i fodloni anghenion dysgwyr.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth?

Barn: Digonol

Ceir strwythur clir ar gyfer rheoli'r ddarpariaeth peirianeg. Mae gan dîm rheoli'r maes dysgu linellau cyfrifoldeb diffiniedig. Mae rheolwyr yn cynnal cyfarfodydd wythnosol perthnasol i adolygu eitemau craidd yr agenda sy'n gysylltiedig â safonau a lles. Fodd bynnag, nid yw'r camau gweithredu o gyfarfodydd bob amser yn ddigon penodol ac nid ydynt bob amser yn canolbwyntio ddigon ar wella safonau.

Mae rheolwyr yn y maes yn defnyddio proses newydd y coleg ar gyfer arsylwi addysgu a dysgu yn effeithiol i nodi staff ag anghenion datblygu addysgu a dysgu. Mae athrawon o'r maes yn mynychu sesiynau i rannu arfer dda, er enghraifft ar ddefnyddio technoleg gwybodaeth a dysgu a system electronig y coleg ar gyfer olrhain myfyrwyr. O ganlyniad, defnyddir y systemau hyn yn gyson ar draws y maes dysgu.

Mae adroddiad hunanasesu'r maes dysgu yn arfarnol ac yn defnyddio data o ddeilliannau ac arolygon staff a dysgwyr yn dda. Fodd bynnag, mewn nifer o feysydd, caiff y cynnwys ei orbwysleisio ac nid yw'n nodi diffygion yn glir. Mae'r adroddiad hunanasesu yn nodi camau gweithredu allweddol, sy'n cael eu cynnwys yn y cynllun datblygu ansawdd. Fodd bynnag, nid yw effaith y camau gweithredu i wella ansawdd yr addysgu yn glir eto.

Mae'r maes dysgu'n gweithio'n briodol gydag ystod eang o gyflogwyr sy'n gwella'r rhaglen addysg yn gysylltiedig â gwaith trwy gyflwyno sgysiau ac arddangosiadau gwerth chweil. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau mawr iawn, mentrau bach a chanolig, a microfusnesau. Mae'r ddarpariaeth yn gweithio'n dda gydag ysgolion cynradd ac uwchradd lleol i gyflwyno diwrnodau rhagflas a rhaglenni cyswllt ysgol mewn peirianeg. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r cyfleoedd profiad gwaith ar gyfer dysgwyr.

Atodiad 1

Bodddhad dysgwyr

Rydym yn defnyddio canlyniadau arolwg Llais y Dysgwr Llywodraeth Cymru i lywio ein holl arolygiadau o addysg a hyfforddiant yn y sector ôl-16. Arolwg bodddhad dysgwyr yw Llais y Dysgwr a gynhelir gan Lywodraeth Cymru rhwng mis Ionawr a mis Chwefror bob blwyddyn.

Mae'r arolwg yn gofyn ystod o gwestiynau i ddysgwyr am y themâu allweddol canlynol:

- y wybodaeth, y cyngor a'r cymorth a roddir iddynt;
- ymatebolrwydd y darparwr, yr amgylchedd dysgu a lles myfyrwyr;
- ansawdd yr addysgu a'r hyfforddi; a
- bodddhad cyffredinol.

Mae pob thema'n cynnwys ystod o gwestiynau sy'n gofyn i ddysgwyr raddio perfformiad eu darparwr.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Steve Bell	Arolygydd Cofnodol
Gill Sims	Arolygydd Tîm
Sandra Barnard	Arolygydd Tîm
Alun Connick	Arolygydd Tîm
Vanessa Morgan	Arolygydd Tîm
Jackie Gapper	Arolygydd Tîm
Richard Mark Tither	Arolygydd Tîm
Mark Evans	Arolygydd Tîm
Huw Davies	Arolygydd Tîm
Eleanor Davies	Arolygydd Tîm
Linda Howells	Arolygydd Sicrhau Ansawdd
James Nelson	Arolygydd Cymheiriaid
Elaine Rees	Arolygydd Cymheiriaid
Nigel John Hillman Holloway	Arolygydd Cymheiriaid
Ashley Wallington	Arolygydd Cymheiriaid
Duncan Hogg	Arolygydd Cymheiriaid
Jacqueline Ann Button Kelshaw	Arolygydd Cymheiriaid
Barry Roberts	Arolygydd Cymheiriaid
Victoria Thomas	Arolygydd Cymheiriaid
Theresa Jones	Arolygydd Cymheiriaid
Stephen Cass	Arolygydd Cymheiriaid
Richard Clayden	Arolygydd Cymheiriaid
Rob Evans	Enwebai